Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Gwerthusiad annibynnol

# Strategaeth Tair Blynedd Comisiynydd Plant Cymru: Gwella Bywyd i Blant yng Nghymru (2023–2026)

Dr Liz Stones ac Emma Newbury



www.comisiynyddplant.cymru



# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn adolygu ac yn gwerthuso cwmpas, cynnydd ac effaith gwaith Comisiynydd Plant Cymru (CPC) a'i thîm rhwng Ebrill 2023 a Gorffennaf 2025, mewn perthynas â'r blaenoriaethau a amlygwyd yn ymgynghoriad Gobeithion i Gymru ac yng nghyd-destun ymrwymiadau strategol y Comisiynydd.

Yr ymrwymiadau hyn, sef bod Yma i Bob Plentyn, yn Arwr Hawliau, Goleuo'r Gwir, ac yn Heriwr, sydd wedi llywio gweithredoedd y Comisiynydd ym meysydd cynyddu ymwybyddiaeth, gwaith achosion, dylanwadu a meithrin partneriaethau ledled Cymru. Mae'r adolygiad yn defnyddio tystiolaeth helaeth, myfyrio cyfranogol â swyddfa'r Comisiynydd, a mapio cyd-destunol i asesu sut yr aed ati i gryfhau lleisiau plant a phobl ifanc, hyrwyddo eu hawliau, a meithrin newid systemig.

Mae CPC wedi pennu gweledigaeth glir: Cymru lle mae pob plentyn yn deall eu hawliau, yn gwybod bod y Comisiynydd yno i'w cynnal, ac yn gallu cael cymorth i wireddu'r hawliau hynny. O dan arweiniad y pedwar ymrwymiad strategol - bod Yma i Bob Plentyn, bod yn Arwr Hawliau, Goleuo'r Gwir, a bod yn Heriwr – mae swyddfa'r Comisiynydd yn gwrando, yn cryfhau lleisiau, yn addysgu, yn dylanwadu ac yn dal gwasanaethau cyhoeddus yn atebol. Yr ymrwymiadau hyn, ochr yn ochr â'r mecanweithiau gweithredu a'r blaenoriaethau a amlygwyd trwy arolwg cenedlaethol Gobeithion i Gymru, yw'r fframwaith ar gyfer gweithredu ar faterion allweddol gan gynnwys cydraddoldeb, addysg ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY), tlodi plant, ac iechyd meddwl. Drwy integreiddio safbwyntiau plant a phobl ifanc mewn gwaith polisi, cynyddu ymwybyddiaeth, ac ymarfer, mae'r Comisiynydd yn sicrhau bod y gwaith hwn yn troi nodau strategol yn ganlyniadau gweladwy sy'n gwella llesiant plant ledled Cymru.

O dan ei hymrwymiad sylfaenol, Yma i Bob Plentyn, mae CPC wedi cryfhau mecanweithiau i wrando ar blant ar draws Cymru a'u cynrychioli. Drwy gynnal partneriaethau â mwy na 150 o sefydliadau/grwpiau, gwella dulliau casglu a dadansoddi data trwy gynlluniau megis Mater y Mis, a rhoi blaenoriaeth i gysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, mae'r Comisiynydd wedi cryfhau lleisiau plant a phobl ifanc a llywio polisi ac ymarfer. Mae cydweithio a dargedir a strwythurau cyfranogiad ieuenctid, gan gynnwys Memoranda Dealltwriaeth â'r Senedd Ieuenctid a phaneli cynghori cryfach, wedi sicrhau atebolrwydd i blant.

Fel Arwr Hawliau, mae CPC wedi cryfhau ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc a rhanddeiliaid o hawliau plant, tra'n helpu gwasanaethau cyhoeddus i wreiddio'r hawliau hyn mewn polisïau ac ymarfer. Mae cynlluniau megis ymgysylltu ag ysgolion ynghylch dyletswydd newydd y Cwricwlwm i Gymru, mireinio a hyrwyddo fframwaith Y Ffordd Gywir, a datblygu polisi cwynion enghreifftiol wedi cynyddu gallu ymarferwyr a gosod sylfaen ar gyfer newid systemig.

O ran Goleuo'r Gwir, mae CPC wedi grymuso plant a phobl ifanc i rannu eu profiadau bywyd, gan sicrhau bod y lleisiau hyn yn llywio polisi, ymarfer ac ymwybyddiaeth y cyhoedd ledled Cymru. Mae cynlluniau megis y model Dim Drws Anghywir, gwaith achosion ynghylch ADY a materion eraill, ac ymgysylltu wedi'i dargedu ym maes iechyd meddwl, tlodi plant a chynhwysiad wedi amlygu materion unigol a systemig. Drwy gynyddu ymwybyddiaeth, mae'r Comisiynydd wedi cyfrannu at wella canlyniadau i blant a phobl ifanc yn awr ac yn y dyfodol, gan drawsnewid profiadau bywyd yn newid ystyrlon.

Fel Heriwr, mae CPC wedi tynnu sylw'n gyson at fylchau, diffygion ac annhegwch sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, gan sbarduno newid mewn polisi, ymarfer, ac ymwybyddiaeth y cyhoedd. O eiriol dros drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i leihau tlodi plant a rhoi sylw i'r argyfwng hinsawdd, i herio digonolrwydd darpariaethau iechyd meddwl, prosesau diogelu, tai a gwasanaethau gofal, mae'r Comisiynydd wedi sicrhau bod lleisiau plant yn dylanwadu ar benderfyniadau'r llywodraeth. Mae'r gwaith hwn yn rhoi sylw i faterion systemig, yn cryfhau effeithiolrwydd a gallu gwasanaethau i ymateb, ac yn helpu i greu amodau ar gyfer gwelliannau ystyrlon a pharhaol ym mywydau plant a phobl ifanc.

Mae ymgynghoriad Gobeithion i Gymru a luniwyd i lywio a darparu sylfaen ar gyfer fframwaith strategol CPC: Gwella Bywyd i Blant yng Nghymru (2023–2026), wedi cynnig y darlun mwyaf cynhwysfawr eto o'r hyn sy'n bwysig i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Roedd mwy nag 8,000 o gyfranogwyr, yn cynnwys rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol, wedi rhannu eu profiadau, eu pryderon a'u blaenoriaethau o ran llesiant a hawliau plant a phobl ifanc. Roedd eu neges yn glir: mae plant am i oedolion wrando, gofalu, a gweithredu. Galwodd cyfranogwyr am fynediad teg at gymorth iechyd meddwl, cymorth i adfer wedi pandemig COVID-19, ysgolion diogel a chynhwysol, gweithredu ar dlodi plant, cydraddoldeb i blant ag ADY, llety addas i blant a theuluoedd, a chyfleoedd i gyfrannu at benderfyniadau ynghylch eu cymunedau a'u dyfodol.

Y canfyddiadau hyn yw'r sylfaen ar gyfer datblygu fframwaith Gwella Bywyd i Blant yng Nghymru (2023–2026), a ddyluniwyd i roi sylw systematig a chynhwysfawr i'r materion, y pryderon a'r blaenoriaethau a amlygwyd trwy ymgynghoriad Gobeithion i Gymru. Ers 2023, mae'r Comisiynydd wedi defnyddio tystiolaeth o ymgynghoriad Gobeithion i Gymru i lywio ac arwain ei gwaith o ran herio Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus ar ystod o faterion, gan gynnwys cyflymder ac uchelgais y Strategaeth Tlodi Plant, cysondeb cymorth iechyd meddwl, ac ymyrraeth gynnar.

Ond mae canfyddiadau Gobeithion i Gymru yn amlygu'r angen parhaus i gau'r bwlch rhwng geiriau plant a'r hyn a welant. Roedd llawer o blant a phobl ifanc o deuluoedd incwm is, plant ag anableddau, plant o gefndiroedd ethnig leiafrifol neu LHDTC+ yn llai hyderus bod llunwyr penderfyniadau yn deall neu'n cynrychioli eu profiadau. Mae rhagor o waith i'r Comisiynydd ei wneud er mwyn parhau i ddefnyddio pwerau a dylanwad y swyddfa i herio cyrff cyhoeddus i roi sylw i'r anghydraddoldebau hyn a sicrhau eu bod yn rhoi'r un pwyslais ar lais pob plentyn a pherson ifanc yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae swyddfa'r Comisiynydd wedi cymryd camau sylweddol ymlaen dros y cyfnod strategol diwethaf, gan wella hawliau a llesiant plant yn sylweddol ar draws Cymru. Drwy weithio'n strategol i gynyddu ymwybyddiaeth, ymgysylltu'n gadarn â phlant a phobl ifanc, a chydweithio'n agos â gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaid yn y sector, mae CPC wedi cryfhau systemau, amlygu lleisiau plant, a chyflawni gwelliannau amlwg mewn polisi, ymarfer a phrofiadau pob dydd. Mae'r cyflawniadau hyn yn sylfaen gref ar gyfer cynnydd parhaus a newid systemig dyfnach.

Ochr yn ochr â'r llwyddiannau hyn, mae yna feysydd lle gellid cryfhau dulliau gweithredu ymhellach i gyflawni'r effaith fwyaf a sicrhau budd llawn i bob plentyn. Er bod CPC yn casglu ystod gyfoethog o dystiolaeth gan blant a phobl ifanc, mae'r wybodaeth hon wedi'i gwasgaru ar draws nifer o systemau mewnol. Byddai tynnu'r data ynghyd mewn modd mwy systematig yn gwella gallu'r swyddfa i fonitro deilliannau yn gyson, amlygu anghydraddoldebau a manteisio'n llawn ar gipolygon er mwyn llywio gwaith polisi ac eiriolaeth. Yn yr un modd, gellid ymgysylltu mwy â phlant heb gynrychiolaeth ddigonol a hynny mewn modd mwy systematig, er mwyn sicrhau bod pob llais, yn enwedig lleisiau'r rhai sy'n wynebu llawer o rwystrau, yn llywio penderfyniadau a chyflwyno gwasanaethau ym mhob maes thematig. Mae amrywiadau yn y modd y darperir gwasanaethau lleol, gan gynnwys cludiant i'r ysgol, cymorth iechyd meddwl, ac ADY, yn dal i greu anghydraddoldeb ar sail codau post. Mae cryfhau atebolrwydd a gwaith monitro, a sicrhau safonau cyson ar draws awdurdodau lleol, yn hanfodol o hyd er mwyn gwarantu bod pob plentyn yn gallu derbyn eu hawliau. Mae lle hefyd i wella'r gwaith monitro a chyflwyno adroddiadau ar effaith argymhellion, cynlluniau a chanllawiau deddfwriaethol, i ddarparu darlun cliriach o welliannau systemig dros amser.

Drwy roi sylw i'r cyfleoedd hyn, bydd modd adeiladu ar y sylfeini cryf a osodwyd gan y Comisiynydd i wella cwmpas, dylanwad ac effeithiolrwydd y swyddfa. Drwy barhau i integreiddio tystiolaeth, cryfhau ymgysylltiad a hyrwyddo mynediad teg i wasanaethau, mae CPC mewn sefyllfa dda i sbarduno newid parhaol, ystyrlon; a sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn derbyn amddiffyniad cryfach, cyfleoedd teg, a chyfranogiad ystyrlon yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

# Cynnwys


**01 Rhagarweiniad** .......... 7
**02 Gweledigaeth a Chenhadaeth** .......... 8
**03 Gobeithion i Gymru** .......... 10
**04 Canfyddiadau** .......... 11
**4.1 Yma i bob plentyn** .......... 11
4.1.1 Trosolwg .......... 11
4.1.2 Prif ganfyddiadau .......... 11
4.1.3 Astudiaeth achos: Tlodi Plant: Partneriaeth a dylanwadu ar bolisi .......... 13
4.1.4 Astudiaeth achos: Tynnu sylw at leisiau pobl ifanc: Sut mae comisiynydd plant Cymru yn llywio polisi trwy gipolygon amser real .......... 15
4.1.5 Ymateb i gobeithion i Gymru: Sicrhau bod pob plentyn yn cael gwrandawiad .......... 16
4.1.6 Bylchau a heriau .......... 17
**4.2 Arwr hawliau** .......... 18
4.2.1 Trosolwg .......... 18
4.2.2 Prif ganfyddiadau .......... 18
4.2.3 Astudiaeth achos: Cynyddu ymwybyddiaeth a meithrin gallu ar gyfer hawliau plant mewn ysgolion a lleoliadau addysg .......... 20
4.2.4 Astudiaeth achos: Y ffordd gywir mewn ymarfer – gwreiddio dull gweithredu hawliau plant ar draws y gwasanaethau cyhoeddus .......... 21
4.2.5 Ymateb i gobeithion i Gymru: Sicrhau bod hawliau'n cael eu gwireddu .......... 22
4.2.6 Bylchau a heriau .......... 23
**4.3 Goleuo'r gwir** .......... 24
4.3.1 Trosolwg .......... 24
4.3.2 Prif ganfyddiadau .......... 24
4.3.3 Astudiaeth achos: Straeon cynhwysiad: Cwmpas ehangach dim drws anghywir .......... 27
4.3.4 Astudiaeth achos: Rôl CPC wrth roi deddf ADY ar waith trwy waith achosion .......... 29
4.3.5 Ymateb i gobeithion i Gymru: Goleuo'r gwir .......... 30
4.3.6 Bylchau a heriau .......... 32
**4.4 Heriwr** .......... 33
4.4.1 Trosolwg .......... 33
4.4.2 Canfyddiadau allweddol .......... 33
4.4.3 Astudiaeth achos: Dileu elw mewn gofal plant .......... 37
4.4.4 Astudiaeth achos – Sefyll dros drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i blant a phobl ifanc yng Nghymru .......... 37
4.4.5 Ymateb i arolwg gobeithion i Gymru: Heriwr .......... 38
4.4.6 Bylchau a heriau .......... 40
**05 Gwersi ar gyfer y dyfodol** .......... 41
**06 Diweddglo** .......... 43

# Tabl ffigurau


Ffigur 1 Mecanweithiau Gweithredu ar draws yr Ymrwymiadau Strategol ....... 9

Ffigur 2 Cyfeiriadau yn y Senedd at CPC mewn perthynas â Thlodi Plant mewn dadleuon a Phwyllgorau (Ebrill 2023-Meh 2025) Data o adroddiadau chwarterol mewnol CPC ....... 14

Ffigur 3 Lefelau Ymgysylltu ar draws Pynciau Trafod Mater y Mis ....... 15

Ffigur 4 Nifer y sesiynau archwilio CCUHP a gynhaliwyd gan CPC fesul ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ffigurau ysgolion o Gyfrifiad Ysgolion Llywodraeth Cymru, 2024....... 20

Ffigur 5 Achosion cysylltiedig ag ADY gan y Llinell Gynghori yn ôl statws, Ebrill 2023-Mehefin 2025 ....... 29

Ffigur 6 Amserlen diwygio'r polisi gofalu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru ....... 36

Ffigur 7 Amcangyfrif o'r Arbedion Blynyddol i Deuluoedd o dan y Cynllun Teithio i'r Ysgol am £1 yng Nghymru ....... 38


# Acronymau

| | |
|---|---|
| **ACaRh** | Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb |
| **ADUS** | Adolygiad Diogelu Unedig Sengl |
| **ADY** | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| **AGIC** | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| **AS** | Aelod o'r Senedd |
| **AYP** | Adolygiad Ymarfer Plant |
| **CAMHS** | Gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc |
| **CCUHP** | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn |
| **CPC** | Comisiynydd Plant Cymru |
| **CRIA** | Asesiad Effaith ar Hawliau Plant |
| **EOTAS** | Addysg Heblaw yn yr Ysgol |
| **ESTYN** | Arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru |
| **NAEL** | Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol |

# 01 RHAGARWEINIAD

Mae'r adroddiad hwn yn adolygu ac yn gwerthuso cwmpas, cynnydd ac effaith gwaith Comisiynydd Plant Cymru (CPC) a'i thîm rhwng Ebrill 2023 a Gorffennaf 2025, mewn perthynas â'r blaenoriaethau a amlygwyd yn ymgynghoriad Gobeithion i Gymru ac yn ymrwymiadau strategol y Comisiynydd.

Mae'r adroddiad hwn yn asesu ble, sut ac ym mha ffordd yr aed ati i amlygu lleisiau plant a phobl ifanc a hyrwyddo eu hawliau, yn gosod y canfyddiadau hyn yn y cyd-destun cenedlaethol ehangach, ac yn amlygu'r bylchau a'r heriau sy'n parhau. Y nod cyffredinol yw llywio a chryfhau gweithredoedd y Comisiynydd ym meysydd cynyddu ymwybyddiaeth, dylanwadu, gwaith achosion a chydweithio, er mwyn gwireddu holl hawliau plant ar draws Cymru.

Llywiwyd yr adroddiad gan adolygiad cynhwysfawr a systematig a dadansoddiad thematig o ddogfennau a data mewnol a chyhoeddus CPC, ymarferion myfyrio cyfranogol a hwyluswyd gyda'r Comisiynydd a'i thîm, a gwaith i fapio ac asesu'r cyd-destun a'r ecosystem ehangach. I lywio a chefnogi'r adroddiad, lluniwyd matrics strwythuredig (Atodiad 1) a'i llenwi â data o waith y Comisiynydd ers Ebrill 2023 yn erbyn gweithgareddau ehangach ar lefel genedlaethol a rhanbarthol.

Trefnir yr adroddiad o gwmpas pedwar ymrwymiad strategol y Comisiynydd — sef Yma i Bob Plentyn, Arwr Hawliau, Goleuo'r Gwir, a Heriwr – a ddiffiniwyd yn Gwella Bywyd i Blant yng Nghymru: Ein strategaeth tair blynedd 2023-2026. O fewn strwythur yr ymrwymiadau strategol hyn, cyflwynir trosolwg o'r canfyddiadau ar gyfer pob Mecanwaith Cyflwyno, wedi'i gefnogi gan astudiaethau achos manwl a lluniau esboniadol o bob ymrwymiad. Cyflwynir tystiolaeth o'r deilliannau a ddaeth i'r amlwg yng ngwaith y Comisiynydd ers Ebrill 2023 yn eu cyd-destun er mwyn gynnig dadansoddiad systematig o'r cynnydd, yr heriau a'r cyfleoedd.



# 02 GWELEDIGAETH A CHENHADAETH

Mae CPC wedi cyflwyno gweledigaeth glir: "Cymru yn wlad lle bod pob plentyn a pherson ifanc yn deall eu hawliau, eu bod yn ymwybodol bod y Comisiynydd Plant yno i sefyll i fyny dros yr hawliau hynny, a'u bod nhw'n medru derbyn cefnogaeth i gael mynediad i'r holl hawliau hynny."

Eu cenhadaeth yw "gwrando ar blant a phobl ifanc yng Nghymru, a chodi llais ar eu rhan fel bod hawliau plant yn cael eu diogelu, a chefnogi, herio a dylanwadu ar wasanaethau cyhoeddus er mwyn cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau."

Mae CPC wedi diffinio pedwar ymrwymiad er mwyn cefnogi gweledigaeth a chenhadaeth y sefydliad:

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Yma i bob plentyn** | Rydyn ni'n gwrando ac yn gwneud yn siŵr ein bod ni'n hygyrch i bob plentyn yng Nghymru, er mwyn sicrhau ein bod ni'n gallu codi llais yn effeithiol ar eu rhan a'u cynrychioli yn y ffordd sy'n cael yr effaith fwyaf. |
| 2 | **Arwr hawliau** | Rydyn ni'n cefnogi ac yn addysgu plant a phobl ifanc i wybod am eu hawliau dynol a'u deall ac rydyn ni'n cefnogi ac yn cynghori gwasanaethau cyhoeddus ar hybu a diogelu hawliau plant. |
| 3 | **Goleuo'r Gwir** | Byddwn ni'n cefnogi ac yn grymuso plant i godi llais a rhannu eu profiadau amrywiol gyda llunwyr penderfyniadau. Byddwn ni'n goleuo'r gwir ar faterion penodol ac yn chwyddo hanesion sydd heb eu clywed. |
| 4 | **Heriwr** | Byddwn ni'n herio ac yn cefnogi eraill i sicrhau bod hawliau dynol plant yn cael eu gwireddu … ni fyddwn yn ofni tynnu sylw at wasanaethau gwael, penderfyniadau gwael a dewisiadau gwael os ydyn nhw'n cael effaith negyddol ar fywydau plant. |

O dan bob un, diffiniwyd mecanweithiau rhyng-gysylltiedig i gefnogi gwireddu'r ymrwymiad.




*Ffigur 1 Mecanweithiau Gweithredu ar draws yr Ymrwymiadau Strategol*

Yr ymrwymiadau hyn yw fframwaith strategaeth Gwella Bywyd i Blant yng Nghymru (2023–2026), a'r mecanweithiau gweithredu cysylltiedig yw'r sylfaen ar gyfer yr asesiad o gwmpas, cynnydd, ac effaith ers Ebrill 2023 yn yr adroddiad hwn.

# 03 GOBEITHION I GYMRU

Ochr yn ochr â'r pedwar ymrwymiad strategol, llywir gwaith y Comisiynydd gan y materion pwysicaf i blant a phobl ifanc, yn seiliedig ar eu hymatebion a'r dystiolaeth a gyfrannwyd i arolwg mawr Gobeithion i Gymru.

Amlygodd yr ymgynghoriad cenedlaethol hwn bedair blaenoriaeth thematig sy'n ganolog i wireddu hawliau plant a gwella eu bywydau pob dydd:

1. **Cydraddoldeb:** Mynd i'r afael â chamwahaniaethu, rhoi sylw i'r rhwystrau sy'n effeithio ar grwpiau ar y cyrion, a sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn derbyn cyfleoedd cyfartal a thriniaeth deg.
2. **Addysg/Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY):** Gwneud addysg yn gynhwysol a sicrhau bod pob plentyn yn gallu dysgu, ffynnu, a chyflawni.
3. **Tlodi Plant:** Ymateb i'r argyfwng costau byw, lleihau caledi, a gwthio am weithredu ar lefel systemig i atal tlodi rhag cyfyngu ar fywydau a chyfleoedd plant.
4. **Iechyd Meddwl:** Gwella mynediad amserol i wasanaethau priodol, lleihau stigma, a sicrhau bod llesiant plant yn flaenoriaeth mewn polisi ac ymarfer.

Mae CPC wedi gweithio'n gyson i sicrhau nid yn unig fod ei hymrwymiadau strategol yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a'r heriau a amlygwyd gan blant a phobl ifanc yn arolwg Gobeithion i Gymru ond eu bod hefyd yn cael eu trosi'n gamau gweithredu gweladwy. Mae tîm y Comisiynydd wedi ymateb mewn modd systematig ac ystyrlon i'r materion a godwyd gan blant a phobl ifanc trwy'r ymgynghoriad cenedlaethol hwn ac wedi parhau i dynnu sylw at eu profiadau a'u safbwyntiau, cynyddu ymwybyddiaeth ar eu rhan gyda'r llywodraeth, y gwasanaethau cyhoeddus a'r gymdeithas ehangach, a sbarduno canlyniadau sy'n gwella llesiant plant a phobl ifanc a'u teuluoedd ar draws Cymru. Drwy integreiddio blaenoriaethau plant a phobl ifanc ym mhob rhan o'i gwaith, mae swyddfa'r Comisiynydd yn dangos ymrwymiad clir i rymuso plant yng Nghymru er mwyn gwireddu eu hawliau, a sicrhau bod polisi ac ymarfer yn adlewyrchu'r materion pwysicaf i bobl ifanc.

# 04 CANFYDDIADAU

## 4.1 Yma i Bob Plentyn

### 4.1.1 Trosolwg

Nod yr ymrwymiad sylfaenol cyntaf yw sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael gwrandawiad a chynrychiolaeth effeithiol. Gan gydnabod cyfyngiadau'r tîm bach o staff, mae CPC yn blaenoriaethu gweithio mewn partneriaeth ag eraill ar draws yr ecosystem, yn enwedig sefydliadau ac asiantaethau sydd wedi sefydlu perthnasoedd ac ymddiriedaeth â phlant a phobl ifanc ledled Cymru. Drwy'r partneriaethau hyn, mae CPC yn trosoli'r sylfaen dystiolaeth bresennol ac yn amlygu lleisiau plant a phobl ifanc, gofalwyr, a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant i adnabod a hyrwyddo'r materion allweddol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.




- Forge suitable partnerships
- Make the most of data
- Plug the evidence and engagement gap
- Review youth participation structures
- Explore accountability

### 4.1.2 Prif ganfyddiadau

Ar y cyfan, mae CPC wedi cryfhau ei gallu i gydweithio ar draws y sector, i ddefnyddio tystiolaeth mewn modd strategol, i ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, i wella cyfranogiad ieuenctid, ac i sicrhau ei bod yn atebol i blant. Gyda'i gilydd, mae'r ymdrechion hyn yn ddull gweithredu cydlynus, effeithiol sy'n amlygu lleisiau plant ac yn gwneud eu hawliau yn ganolog i bolisi ac ymarfer yng Nghymru.

**Meithrin partneriaethau addas i hwyluso cydweithio effeithiol**

Yn ystod y cyfnod strategol, mae CPC wedi ffurfio neu wedi cynnal partneriaethau â mwy na 150 o sefydliadau/grwpiau, gan gynnwys Canolfan Gyfreithiol y Plant a Plant yng Nghymru. Bu'r partneriaethau hyn yn fodd i gynnal cynlluniau ar y cyd megis cyd-gynnal digwyddiadau (gan gynnwys yr Uwchgynhadledd genedlaethol ar Dlodi Plant), ac i lunio cyhoeddiadau maniffesto ar y cyd yn 2025. Mae'r dull cydweithredol hwn wedi cryfhau dylanwad y sector a thynnu sylw at bryderon am hawliau plant, yn enwedig yng nghyswllt tlodi plant, ADY ac Iechyd Meddwl.

### Sicrhau defnydd effeithlon ac effeithiol o ddata mewnol ac allanol

Mae CPC wedi ehangu'n sylweddol ei gwaith casglu, dadansoddi a defnyddio data i lywio gweithredoedd a gwaith cynyddu ymwybyddiaeth. Gwnaed defnydd helaeth o ffynonellau data mewnol, gan gynnwys *Gobeithion i Gymru, Mater y Mis*, a chofnodion achosion cynghori, wrth ymateb i ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru, mewn safbwyntiau polisi ac ar wefan a chyfrifon CPC ar y cyfryngau cymdeithasol. Defnyddiwyd data allanol, megis *Rhaglen Mesur Plant Cymru* ac arolwg *y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion* (SHRN), i gefnogi papurau safbwynt ar faterion megis gordewdra a fepio. Mae gwell system rheoli achosion wedi cryfhau gallu'r sefydliad i gefnogi nifer mawr iawn o achosion ac i lunio gwell adroddiadau ar dueddiadau yn yr achosion hynny. Cafodd tystiolaeth a gynhyrchwyd gan CPC ei dyfynnu gan ystod o randdeiliaid, gan gynnwys gwahanol Aelodau o'r Senedd, a bu'n llywio polisi'r llywodraeth, gan gynnwys *Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)* 2025 sy'n cyfyngu ar wneud elw mewn gwasanaethau gofal plant.

### Deall profiadau plant a phobl ifanc heb gynrychiolaeth ddigonol

Mae CPC wedi blaenoriaethu ymgysylltiad â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys plant sydd â phrofiad o ofal a chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae blaengareddau megis y Fforymau Cydlyniant Cymunedol gyda Llywodraeth Cymru a gweithgareddau ymgysylltu a dargedir wedi dylanwadu ar ddarpariaeth hyfforddi; er enghraifft mae'r *Gymdeithas ar gyfer Maethu, Gofal Perthynas a Mabwysiadu* Cymru wedi cyflwyno cyrsiau newydd ar gyfer gweithwyr proffesiynol a rhieni, yn seiliedig ar waith CPC.

### Adolygu a gwella strwythurau cyfranogiad ieuenctid

Mae gwaith gyda *Plant yng Nghymru, Cymru Ifanc*, a'r Senedd Ieuenctid wedi egluro rolau a chryfhau mecanweithiau ar gyfer cyfranogiad ieuenctid. Llofnodwyd Memorandwm Dealltwriaeth newydd gyda'r Senedd Ieuenctid, i sicrhau cydweithio a gwell craffu ar waith CPC erbyn Medi 2025.

### Gwella atebolrwydd i blant a phobl ifanc

Rhwng Ebrill 2023 a Mehefin 2025, cysylltodd CPC â mwy na 40,000 o blant a phobl ifanc trwy waith ymgysylltu uniongyrchol ac arolygon *Mater y Mis*. Mae cynlluniau megis y *Prosiect Gloywi i Lysgenhadon*, a lansiwyd yn 2023, wedi cryfhau strwythurau cynghori cymunedol trwy uno'r llysgenhadon cymunedol a'r *Paneli Cynghori Ieuenctid*. Mae'r cydweithio â'r Senedd Ieuenctid wedi gwella mecanweithiau atebolrwydd, gan sicrhau bod lleisiau plant yn dal yn ganolog wrth wneud penderfyniadau a bod gwaith y Comisiynydd yn ymateb i'w safbwyntiau.

O dan yr ymrwymiad 'Yma i Bob Plentyn' mae'r astudiaethau achos yn cyflwyno dau gynllun allweddol sy'n dangos effaith dull gweithredu'r sefydliad. Mae'r cyntaf, ***y Bartneriaeth Tlodi Plant***, yn canolbwyntio ar feithrin partneriaethau cynaliadwy er mwyn cydweithio, gan roi llais unedig cryfach i'r sector wrth amlygu pryderon am hawliau plant yng nghyswllt tlodi plant sy'n fater â blaenoriaeth. Mae'r ail gynllun, ***Tynnu Sylw at Leisiau Pobl Ifanc: Sut mae Comisiynydd Plant Cymru yn Llywio Polisi trwy Gipolygon mewn Amser Real***, yn amlygu sut y mae gwaith i gryfhau systemau mewnol ar gyfer casglu, dadansoddi a defnyddio tystiolaeth trwy gyflwyno *Mater y Mis*, wedi arwain at waith cynyddu ymwybyddiaeth mwy cadarn, seiliedig ar ddata sydd hefyd yn ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg.

## 4.1.3 Astudiaeth achos: **Tlodi Plant: Partneriaeth a Dylanwadu ar Bolisi**

Mae CPC wedi gweithio'n gyson ac yn effeithiol mewn partneriaeth ag eraill ar draws y sector, gan gydweithio â mwy na 150 o sefydliadau yn ystod y cyfnod strategol diwethaf. Mae'r gwaith tlodi plant yn enghraifft o'r dull cydweithredol hwn, lle ffurfiwyd partneriaeth i dynnu sylw at leisiau plant a phobl ifanc a chryfhau'r ymateb i dlodi plant ar lefel genedlaethol.

Gan gydnabod cyfyngiadau ymdrechion unigol a'r angen am weithredu ar y cyd, cydweithiodd y Comisiynydd â'r Arsyllfa ar Hawliau Plant a Plant yng Nghymru i gynnull yr Uwchgynhadledd Tlodi Plant gyntaf yng Nghymru yn 2023. Daeth pobl ifanc, academyddion, ymarferwyr a llunwyr polisi ynghyd i'r Uwchgynhadledd, gan lunio adroddiad ar y cyd oedd yn diffinio blaenoriaethau ar gyfer newid.

Ymatebodd swyddfa'r Comisiynydd, yr Arsyllfa ar Hawliau Plant, a Plant yng Nghymru i'r drafft o Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru, gan adleisio'r galwadau o'r Uwchgynhadledd Tlodi Plant, a galw'n benodol am y canlynol:

- gwneud hawliau CCUHP yn ganolog i'r strategaeth (yn hytrach nag fel "cyfeiriadau" neu uchelgais);
- deilliannau targed mesuradwy, dangosyddion cynnydd a chynllun cyflawni/gweithredu;
- mwy o atebolrwydd ac eglurder ynghylch sut y byddid yn monitro'r strategaeth.


Roedd adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol hefyd yn adlewyrchu'r pryderon a godwyd gan y Comisiynydd a'i phartneriaid, gan gryfhau'r feirniadaeth ar draws y sector a gafodd sylw sylweddol yn y wasg gydag eitemau gan y prif ddarlledwyr, gan gynnwys y BBC, Channel 4, ITV, a Radio Cymru/Wales.

Ni wireddwyd yr holl argymhellion yn Strategaeth Tlodi Plant Cymru, ond roedd effaith y cyd-eiriolaeth hon i'w gweld mewn sawl ffordd. Adleisiwyd rhai argymhellion o adroddiad yr Uwchgynhadledd Tlodi Plant, gan gynnwys galwadau am Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant, gwreiddio egwyddorion CCUHP a thargedau clir, mewn dadleuon yn y Senedd a hynny gan Aelodau Senedd o'r pedair prif blaid, a oedd yn cynnwys Jenny Rathbone AS, Llafur Cymru; Sioned Williams AS, Plaid Cymru; Jane Dodds AS, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru; Gareth Davies AS, y Ceidwadwyr Cymreig. ; ac fe'u hadlewyrchwyd i raddau yn y strategaeth derfynol.

Mae'r graff rhwydwaith isod yn dangos yr Aelodau o'r Senedd a gyfeiriodd at CPC yn y dadleuon ynghylch tlodi plant yn y Senedd neu yn ei phwyllgorau.



[1] Jenny Rathbone AS, Llafur Cymru, ym Mwhyllgor Craffu ar y Prif Weinidog, 26 Ebrill 2024. Sioned Williams AS, Plaid Cymru yn ystod Dadl Plaid Cymru yn y Senedd, 25 Medi 2024. Jane Dodds AS, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn ystod Cwestiynau'r Prif Weinidog, 8 Hydref 2024. Gareth Davies, AS y Ceidwadwyr Cymreig yn sesiwn Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol ar 16 Hydref 2024.




*Ffigur 2 Cyfeiriadau yn y Senedd at CPC mewn perthynas â thlodi plant mewn dadleuon a Phwyllgorau (Ebrill 2023-Meh 2025) Data o adroddiadau chwarterol mewnol CPC.*

Roedd Strategaeth Tlodi Plant Cymru, a lansiwyd yn Ionawr 2024, yn ymrwymo i ddefnyddio dull seiliedig ar hawliau plant ar draws rhaglenni, gan ymgorffori tlodi yn arolygiadau Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Cymru (ESTYN), a gwreiddio CCUHP yn y Cwricwlwm newydd i Gymru.

Cyfrannodd y Comisiynydd at feirniadaeth y sector cyfan o'r strategaeth derfynol a dynnai sylw yn benodol at y diffyg targedau mesuradwy, a gyhoeddwyd gan 14 o sefydliadau allweddol, gan gynnwys Oxfam Cymru, NSPCC Cymru, Barnardo's Cymru, Plant yng Nghymru, a Cyngor ar Bopeth, gan ofyn ag un llais unedig am ddull gweithredu mwy uchelgeisiol. Cyhoeddwyd y strategaeth heb gynllun gweithredu ategol; ond daeth cynnydd pellach i'r amlwg gyda datblygiad Fframwaith Monitro'r Strategaeth Tlodi ym mis Hydref 2024, wedi'i lywio gan Grŵp Cyfeirio Allanol y mae'r Comisiynydd yn sylwedydd arno.

Er nad yw'r strategaeth derfynol yn cynnwys popeth yr oedd y Comisiynydd a'i phartneriaid wedi gobeithio amdano, bu'r llwyfan ar y cyd yn fodd i hwyluso llais unedig sy'n dal i fod yn ddull pwerus o alw'r llywodraeth i gyfrif am dlodi plant. Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos sut y gall partneriaethau amlygu lleisiau plant, sicrhau cyfatebiaeth rhwng blaenoriaethau'r sector a sicrhau bod pryderon yn dal i hawlio lle ar yr agenda wleidyddol, er bod newid yn digwydd yn raddol.

## 4.1.4 Astudiaeth achos: **Tynnu Sylw at Leisiau Pobl Ifanc: Sut mae Comisiynydd Plant Cymru yn Llywio Polisi trwy Gipolygon Amser Real**

Yn Ionawr 2024, lansiodd CPC Mater y Mis, cyfres o arolygon byr a hygyrch a luniwyd i gofnodi lleisiau plant a phobl ifanc ar y materion pwysicaf iddynt.

### Ymgysylltu ag arolygon cipolwg Mater y Mis fesul pwnc trafod




*Ffigur 3 Lefelau Ymgysylltu ar draws Pynciau Trafod Mater y Mis*

Ers hynny, casglwyd atebion gan fwy na 23,900 o blant a phobl ifanc sydd wedi rhannu eu barn ar bynciau trafod sy'n amrywio o ginio ysgol ac amser chwarae i ffonau clyfar, tai, diogelwch ar-lein, a hawliau dynol. Un o gryfderau allweddol Mater y Mis yw ystwythder a chyflymder: o fewn dyddiau wedi i fater ddod i'r golwg, gall swyddfa'r Comisiynydd gasglu cipolwg cyfoethog ar brofiadau a safbwyntiau plant a phobl ifanc ar draws Cymru, yn barod i lywio trafodaethau parhaus, ymgyngoriadau â'r llywodraeth a sylw gan y cyfryngau.

Mae effaith Mater y Mis yn uniongyrchol ac yn weladwy. Gwelwyd canfyddiadau'n cael eu dyfynnu mewn dadleuon yn y Senedd, yn cael sylw gan y cyfryngau cenedlaethol a'u defnyddio i gryfhau'r dystiolaeth a gyflwynir i bwyllgorau seneddol.

Pan amlygwyd pryderon ynghylch cinio ysgol yn arolwg mis Ebrill 2024, cododd Tom Giffard AS y canfyddiadau yn y Senedd, gan ofyn pa gamau y byddid yn eu cymryd i sicrhau na fyddai plant yn llwgu. Rhoddwyd sylw i'r mater ar BBC Wales ac ITV News, gan gynnwys lleisiau plant yn uniongyrchol yn y drafodaeth gyhoeddus a rhoi pwysau ar y llywodraeth i weithredu.

Mewn meysydd eraill, mae'r Comisiynydd wedi defnyddio tystiolaeth o arolwg Mater y Mis i gefnogi tystiolaeth arbenigol; yn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Deisebau ynghylch ffonau symudol mewn ysgolion, gerbron y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ordewdra mewn plentyndod, ac mewn gwaith eiriolaeth gydag Ofcom ynghylch diogelwch ar-lein.

Drwy lansio Mater y Mis, rhoddwyd llwyfan pwerus newydd i blant a phobl ifanc yng Nghymru godi eu lleisiau. Drwy gofnodi eu profiadau mewn amser real, bu modd i'r Comisiynydd amlygu'r materion sy'n dod i'r amlwg, ymateb yn gyflym i gynigion y llywodraeth, a sicrhau bod lleisiau plant yn sylfaen ar gyfer polisi yn hytrach nag yn ystyriaeth wedi'r achos. Mae'r arolygon cipolwg yn rhan o drawsnewidiad ehangach yn y ffordd y bydd swyddfa'r Comisiynydd yn casglu ac yn defnyddio tystiolaeth. Mae Mater y Mis yn cymryd ei le ochr yn ochr â data Gobeithion i Gymru, cipolygon yn sgîl rheoli achosion, a setiau data cenedlaethol megis Rhaglen Mesur Plant Cymru ac arolwg y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion. Gyda'i gilydd, mae'r ffynonellau hyn yn cynnig sylfaen dystiolaeth fanwl a systematig o brofiadau a safbwyntiau plant a phobl ifanc yng Nghymru.

### 4.1.5 Ymateb i Gobeithion i Gymru: Sicrhau bod Pob Plentyn yn cael Gwrandawiad

> *"Dylai oedolion wrando ar ein barn a rhoi sylw i'r hyn ry'n ni'n ei ddweud."*
>
> Gobeithion i Gymru, 2022

Mae'r datganiad syml hwn wrth wraidd ymrwymiad strategol CPC i fod Yma i Bob Plentyn. Mewn ymateb i ganfyddiadau Gobeithion i Gymru, lansiodd CPC arolygon Mater y Mis i hwyluso ymgysylltu rheolaidd ac uniongyrchol â phlant a phobl ifanc ar ystod o faterion allweddol, i dynnu sylw at eu lleisiau a'u blaenoriaethau gyda gwleidyddion, y cyfryngau a rhanddeiliaid eraill mewn mannau lle gwneir penderfyniadau.

Roedd plant a phobl ifanc ym mhob ystod oedran a grŵp demograffig a gymerodd ran yn ymgynghoriad Gobeithion i Gymru, yn teimlo mai gwleidyddion oedd yr oedolion a oedd yn lleiaf tebygol o ofyn am eu barn a rhoi sylw i'r hyn maen nhw'n ei ddweud. Ym Mai 2025, canolbwyntiodd arolwg Mater y Mis ar ymgysylltiad plant a phobl ifanc â gwleidyddiaeth ac etholiadau'r Senedd sydd i ddod yn 2026. Rhannodd mwy nag 800 o blant a phobl ifanc eu barn ar sut maen nhw'n cael mynediad at wybodaeth, pa faterion sy'n bwysig iddynt, a sut maen nhw am i wleidyddion gyfathrebu â nhw. Roedd y canfyddiadau'n glir: mae gan lawer o blant a phobl ifanc ddiddordeb mewn materion gwleidyddol ond maen nhw'n teimlo nad yw'r wybodaeth sydd ar gael yn hygyrch, yn berthnasol neu wedi'i chyflwyno mewn ffyrdd y gallant eu deall. Mewn ymateb, mae CPC wedi cymryd camau ymarferol i sicrhau bod negeseuon gwleidyddol yn fwy hygyrch i blant. Mae hi wedi ysgrifennu at y pleidiau gwleidyddol cyn etholiad nesaf y Senedd i'w hannog i greu cynnwys clir, hawdd i blant ei ddeall am yr ymrwymiadau yn eu maniffesto; wedi ysgrifennu at y BBC i ofyn iddynt edrych ar ddarparu rhaglen newyddion Saesneg i blant yng Nghymru, tebyg i Newyddion Ni; a rhannodd y canfyddiadau â'r Comisiwn Etholiadol a Chomisiwn y Senedd er mwyn llywio eu gwaith cynyddu ymwybyddiaeth yng Nghymru.

Yn ymgynghoriad Gobeithion i Gymru, dywedodd y mwyafrif o blant a phobl ifanc fod siarad ag oedolion y gallent ymddiried ynddynt yn eu gwneud yn hapus, ond eto dangosai'r data anghydraddoldebau sylweddol o ran cynnwys lleisiau a phrofiadau bywyd gwahanol. Yn benodol, plant a phobl ifanc o deuluoedd incwm isel oedd leiaf tebygol o ddweud bod oedolion yn y cartref a'r ysgol "yn cymryd sylw o'r

hyn maen nhw'n ei ddweud", a soniodd y grŵp hwn hefyd am y rhwystrau mwyaf i gymryd rhan mewn gweithgareddau, clybiau a gwneud penderfyniadau. Ychydig iawn o dystiolaeth sydd gennym hyd yma i ddangos bod y mater hwn wedi derbyn sylw systematig yn ystod 2023–26. Er bod mentrau megis Mater y Mis a'r rhwydwaith Llysgenhadon ar ei newydd wedd wedi ehangu cyfleoedd ymgysylltu, ni welwyd ymgysylltiad sy'n targedu plant o gefndiroedd llai cefnog. Byddai rhagor o waith allgymorth a phartneriaeth, yn enwedig gyda sefydliadau cymunedol, ysgolion a rhwydweithiau cymorth i deuluoedd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn ddefnyddiol i sicrhau bod profiadau a blaenoriaethau'r plant hyn yn llywio polisi cenedlaethol ac eiriolaeth ar sail gydradd â'u cyfoedion.

## 4.1.6 Bylchau a heriau

Er y cynnydd clir a wnaed, nid yw pob plentyn yng Nghymru yn elwa'n gyfartal ar yr amddiffyniadau, y cyfleoedd, a'r hawliau sydd ganddynt. Mae amrywiadau mewn darpariaethau lleol, systemau tystiolaeth tameidiog, a sylw anghyfartal i anghenion grwpiau penodol yn dal i greu rhwystrau. Mae'r adran hon yn archwilio meysydd y mae angen sylw pellach iddynt er mwyn sicrhau bod gwaith y Comisiynydd yn darparu'n gyson ar gyfer pob plentyn, ym mhob rhan o Gymru.

Yn benodol, mae cyfleoedd i wella dulliau casglu, rheoli a defnyddio data, fel bod tystiolaeth nid yn unig yn llywio polisi cenedlaethol ond hefyd yn helpu i olrhain deilliannau mewn modd mwy cyson, ac yn dangos ble mae plant yn cael eu gadael ar ôl. Bydd rhoi sylw i'r bylchau hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod eiriolaeth y Comisiynydd wedi'i seilio ar y dystiolaeth gryfaf posib ac yn cael yr effaith fwyaf dros holl blant Cymru.

Ar hyn o bryd, mae'r data yn dameidiog ac wedi'i wasgaru dros ystod o ddogfennau a chronfeydd data, heb system ganolog i gasglu'r cyfan at ei gilydd. Gellid datblygiad dulliau gweithredu mwy cydlynus i hwyluso'r gwaith o fonitro cynnydd a chael cipolwg ar y sefyllfa. Mae data allanol eisoes yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i atgyfnerthu negeseuon allweddol, ond mae cyfle i wneud mwy na chyflwyno data, trwy ddewis dadansoddi'r data er mwyn cyflwyno canfyddiadau newydd neu gynnig darlun mwy cyflawn yn lle hynny. Er enghraifft, gallai CPC ddefnyddio a chyfuno data. Bob blwyddyn, mae'r Gynghrair Dileu Tlodi Plant yn cyhoeddi data ynghylch tlodi plant, sy'n dangos lefelau tlodi plant fesul Awdurdod Lleol. O ystyried y data hwn yng nghyswllt data Llywodraeth Cymru ar absenoldeb o'r ysgol, gwelir yn glir mai'r awdurdod lleol yng Nghymru â'r lefelau uchaf o dlodi plant sydd hefyd â'r cyfraddau uchaf o absenoldeb o'r ysgol hefyd. Gellid cyfuno data o ffynonellau gwahanol i gynnig cefnogaeth werthfawr i'r Comisiynydd wrth iddi alw am deithio am ddim gan ddysgwyr a darparu prydau ysgol i bawb.

Mae lle hefyd i ddyfnhau ymgysylltiad â phlant a phobl ifanc heb gynrychiolaeth ddigonol. Yn ystod y cyfnod strategol diwethaf, mae gwaith ac adroddiadau ymchwil wedi edrych ar brofiadau grwpiau penodol, ond byddai'n ddefnyddiol edrych ar yr holl weithgareddau trwy lens cydraddoldeb cyson er mwyn amlygu a llenwi bylchau mewn modd mwy systematig. Mae rhwydwaith partneriaid eang CPC yn cynnig sylfaen gref ar gyfer y gwaith hwn. Fel y gwelwyd yn yr astudiaeth achos ar Dlodi Plant, mae cydweithio yn ddull pwerus o gryfhau negeseuon. Gallai adolygiad byr o'r partneriaethau cyfredol helpu i amlygu'r dulliau gweithredu mwyaf effeithiol a nodi unrhyw gyfleoedd pellach.

Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn gyfle i adeiladu ar sylfeini cryf, ehangu cwmpas gwaith CPC, amlygu lleisiau pob plentyn mewn modd systemig, a sicrhau bod tystiolaeth, a data a chipolygon yn sgîl gwaith ymgysylltu yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial.

# 4.2 Arwr hawliau

## 4.2.1 Trosolwg

Fel Arwr Hawliau, mae CPC yn cefnogi ac yn dysgu plant a phobl ifanc i ddeall eu hawliau dynol, tra'n cynghori gwasanaethau cyhoeddus a gweithio gyda nhw i hyrwyddo ac amddiffyn yr hawliau hynny. Yng Nghymru, mae rhwymedigaeth statudol ar rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i gynyddu ymwybyddiaeth o CCUHP, tra bydd cyrff eraill wedi ymrwymo i wneud hynny yn wirfoddol. Mae CPC yng weithio gyda'r cyrff hyn i sicrhau dull strategol, cydlynus o gynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant ar draws y wlad. Mae gan wasanaethau cyhoeddus, megis awdurdodau lleol a byrddau iechyd, rôl allweddol ym mywydau plant, ac mewn gwireddu hawliau plant. Mae CPC yn cysylltu â'r sefydliadau hyn er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o hawliau plant a'u bod yn rhan ganolog o'r broses gwneud penderfyniadau, gan roi'r cyfle gorau posib i blant a phobl ifanc yng Nghymru dderbyn eu hawliau.




- Work with schools on the curriculum for Wales
- Review and refine 'The Right Way'
- Explore a 'Child friendly Wales'
- Create a model complaints policy

## 4.2.2 Prif ganfyddiadau

Fel Arwr Hawliau, mae CPC wedi cryfhau dealltwriaeth plant o'u hawliau dynol ac wedi cynyddu gallu gwasanaethau cyhoeddus i wreiddio'r hawliau hyn mewn polisi ac ymarfer. Ar draws yr holl fecanweithiau, mae CPC wedi cryfhau gwybodaeth plant am eu hawliau, gwella gallu ymarferwyr, a gwreiddio egwyddorion hawliau plant mewn polisi a chanllawiau statudol yng Nghymru. Yn arbennig, mae fframwaith y Ffordd Gywir, yn dangos dylanwad gweladwy ar strategaethau'r llywodraeth, ar ganllawiau statudol, ac ar ymarfer proffesiynol, tra bod cynlluniau parhaus, megis y polisi cwynion enghreifftiol a Cymru sy'n Croesawu Plant yn dangos bod effaith systemig bellach yn bosib.

### Gweithio gydag ysgolion a lleoliadau addysg i gyflawni'r ddyletswydd newydd ar hawliau plant yn y Cwricwlwm i Gymru

Mae CPC wedi cysylltu'n effeithiol ag ysgolion a gweithwyr addysg proffesiynol ac wedi cefnogi Llysgenhadon Hawliau y Fro i gysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc. Roedd digwyddiad dysgu a rhannu gwybodaeth am hawliau plant ym Mawrth 2024, a oedd yn dangos arferion gorau ac yn ysbrydoli dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau ar draws sector cyhoeddus, wedi denu mwy nag 80 o weithwyr proffesiynol. Mae CPC hefyd wedi hwyluso hyfforddiant ar gyfer gweithwyr blynyddoedd cynnar proffesiynol, ysgolion, arweinwyr cwricwlwm ACaRh, byrddau iechyd, a chynghorau, wedi cynnal gweithdai gwrth-hiliaeth a thlodi plant, ac wedi cynhyrchu Modiwlau Dysgu Proffesiynol mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru. Mae'r gweithgareddau hyn wedi cyfrannu at gynyddu gwybodaeth a hyder plant a phobl ifanc a gweithwyr proffesiynol i wreiddio hawliau plant. Mewn adroddiad ar arolwg cenedlaethol cynrychioliadol a gyhoeddwyd ym Medi 2025, dywedodd Beaufort Research fod 99% o'r plant a'r bobl ifanc a holwyd yng Nghymru yn ymwybodol o hawliau plant.

### Adolygu a mireinio cynnig 'y Ffordd Gywir'

Mae CPC wedi gwella fframwaith y Ffordd Gywir er mwyn cefnogi cyrff cyhoeddus i ddefnyddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau, gan ddiweddaru canllawiau a chynnal nifer o seminarau, gweithdai, a chynadleddau i hyrwyddo a chefnogi defnyddio'r fframwaith. Mae'r ymdrechion hyn wedi dylanwadu'n effeithiol ar bolisi a chanllawiau yng Nghymru, a gwelir cyfeiriadau amlwg at y Ffordd Gywir yn strategaethau Llywodraeth Cymru, a chymeradwyaeth iddi mewn canllawiau statudol, gyda thystiolaeth o fuddsoddiad parhaus yn y dull gweithredu.

### Archwilio uchelgais 'Cymru sy'n Croesawu Plant'

Edrychodd ar CPC ar gyflwyno ffocws sy'n ystyriol o blant mewn gwaith cynyddu ymwybyddiaeth trwy gynllun Cymru i Bob Plentyn gyda Llywodraeth Cymru, trwy waith gydag UNICEF y DU, a thrwy gymryd rhan mewn digwyddiadau megis Digwyddiad Caerdydd sy'n Dda i Blant ym mis Hydref 2023. Nid oes canlyniadau uniongyrchol wedi'u cofnodi eto, ond mae'r gweithgareddau hyn wedi gosod sylfaen ar gyfer partneriaethau posibl a datblygu strategol yn y dyfodol.

### Creu polisi cwynion enghreifftiol i blant

Mae'r gwaith o ddatblygu polisi cwynion enghreifftiol gyda'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wedi dechrau. Fe'i llunnir i alluogi plant i drafod pryderon am faterion sy'n effeithio ar eu bywydau. Hyd yn hyn, mae'r gwaith wedi cynnwys cwmpasu a chasglu data (e.e. data Beaufort), ond mae'n rhy gynnar i asesu canlyniadau'r broses hon sy'n dal ar waith.

Mae astudiaeth achos Cynyddu Ymwybyddiaeth a Meithrin Gallu ar gyfer Hawliau Plant mewn Ysgolion a Lleoliadau Addysg yn dangos sut mae CPC yn cefnogi ysgolion i wreiddio dyletswydd hawliau plant yn y Cwricwlwm newydd i Gymru, a thrwy ledaenu fframwaith Y Ffordd Gywir sy'n gweithio'n effeithiol i wreiddio'r systemau, y canllawiau, a'r rhwydweithiau sy'n creu amodau lle gall hawliau plant ffynnu ar draws y gwasanaethau cyhoeddus.

### 4.2.3 Astudiaeth achos: **Cynyddu Ymwybyddiaeth a Meithrin Gallu ar gyfer Hawliau Plant mewn Ysgolion a Lleoliadau Addysg**

Mae CPC wedi gweithio'n helaeth gyda phlant a phobl ifanc, ysgolion, a gweithwyr addysg proffesiynol, i feithrin gallu a chynyddu ymwybyddiaeth o hawliau dynol plant yn y Cwricwlwm i Gymru, gan gyflwyno ystod eang o gynlluniau oedd yn ymateb yn fanwl i bryderon a godwyd gan rieni, gofalwyr, a gweithwyr proffesiynol yn arolwg Gobeithion i Gymru, a chanolbwyntio ar wella cynhwysiad a gwreiddio hawliau plant mewn amgylcheddau addysg a dysgu.





*Figure 4 Number of sessions exploring the UNCRC run by CCfW per local authority maintained school, school figures from Welsh Government School Census, 2024.*

Rhwng Ebrill 2023 a Gorffennaf 2025, mae timau CPC wedi cysylltu â phlant a phobl ifanc mewn sesiynau ymwybyddiaeth o hawliau CCUHP mewn mwy na 140 o ysgolion a lleoliadau addysg. Ar ben hynny, cynhaliwyd sgyrsiau hefyd ar faterion penodol megis fepio. Cyflwynodd Llysgenhadon Hawliau y Fro 42 o weithdai, gan gyrraedd mwy na 1,200 o blant. Yn ogystal, datblygodd y Llysgenhadon gêm fwrdd i ddysgu plant am CCUHP.

Cyflwynodd CPC hyfforddiant i weithwyr proffesiynol y blynyddoedd cynnar, ysgolion, byrddau iechyd, a chynghorau, a chymerwyd rhan mewn gweithdai gwrth-hiliaeth a thlodi plant. Darparwyd hyfforddiant i arweinwyr cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhyw (ACaRh) a datblygwyd Modiwlau Dysgu Proffesiynol mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru.

Yn ôl yr adborth a gasglwyd gan CPC, cafodd cyfranogwyr fod yr hyfforddiant yn llawn gwybodaeth, yn ddifyr ac yn berthnasol i'w rolau. Yr agweddau a werthfawrogwyd fwyaf oedd dysgu am CCUHP a hawliau plant, ac archwilio sut i'w cymhwyso a'u hyrwyddo yn eu hymarfer pob dydd. Amlygwyd bod gweithgareddau megis ymarferion y Corff Hawliau a Chamu Mlaen, astudiaethau achos, trafodaethau grŵp, ac elfennau rhyngweithiol yn arbennig o effeithiol. Roedd y mynychwyr hefyd yn gwerthfawrogi dod i ddeall mwy am rôl CPC, sut i gael cyngor a chefnogaeth, a'r adnoddau sydd ar gael i weithwyr proffesiynol, plant, a theuluoedd. Canmolwyd y dull cyflwyno clir, brwd, a chyfeillgar, gyda chyflwyniadau difyr, gweithdai, a deunyddiau gweledol megis posteri a fideos. I rai, roedd hwn yn hyfforddiant gloywi; i eraill, yn enwedig aelodau newydd y gwasanaethau plant, roedd yn sylfaen gwerthfawr dros ben. Yn gyffredinol, roedd cyfranogwyr yn gadael â mwy o wybodaeth a hyder ac wedi'u sbarduno i wreiddio hawliau plant ac eiriol drostynt yn eu rolau. Yn ogystal, mae'r rhaglen wedi cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc, er enghraifft, mewn adroddiad arolygu ar Ysgol Gynradd Golftyn (2024) amlygodd ESTYN fod y disgyblion wedi creu fideo i CPC ar eu hawliau, gan ddangos mwy o ymwybyddiaeth a chyfranogiad.

Bu'r dull gweithredu hwn yn fodd i CPC gryfhau dealltwriaeth o hawliau plant, meithrin gallu ar draws y sector addysg a'r sector cyhoeddus a helpu plant i fynegi eu hawliau ac eiriol drostynt, gyda Llysgenhadon Hawliau y Fro yn cyfrannu'n uniongyrchol at weithgareddau ymgysylltu.

### 4.2.4 Astudiaeth achos: **Y Ffordd Gywir Mewn Ymarfer – Gwreiddio Dull Gweithredu Hawliau Plant ar draws y Gwasanaethau Cyhoeddus**

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae swyddfa'r Comisiynydd wedi mireinio a chryfhau fframwaith Y Ffordd Gywir, gan gefnogi cyrff cyhoeddus yng Nghymru i ddefnyddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant wrth gynllunio a chyflwyno eu gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys diweddaru Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Hawliau Plant i Addysg yng Nghymru ynghyd â llunio a lansio Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant o Ymdrin â Thlodi.

Ochr yn ochr â'r adnoddau allweddol hyn, mae'r swyddfa wedi gweithio'n uniongyrchol gydag ymarferwyr a llunwyr polisi i ddyfnhau eu dealltwriaeth o ymarfer seiliedig ar hawliau. Ym Mawrth 2024, daeth mwy nag 80 o weithwyr proffesiynol ynghyd mewn seminar a gynhaliwyd gan CPC i archwilio sut y gall Y Ffordd Gywir lywio prosesau gwneud penderfyniadau ar draws sectorau. Mae'r tîm hefyd wedi cyfrannu at gymunedau ymarfer Llywodraeth Cymru, cynnull Cynhadledd ar Dlodi ym mis Mai 2025, a chynnal Cynhadledd Y Ffordd Gywir yng Ngogledd Cymru ym mis Mawrth 2025 gyda ffocws ar ADY. Mae'r gweithgareddau hyn wedi cryfhau'r rhwydwaith cynyddol o weithwyr proffesiynol ledled Cymru sy'n mynd ati i gymhwyso egwyddorion Y Ffordd Gywir yn eu gwaith gyda phlant a phobl ifanc.

Mae canlyniadau aruthrol yr ymdrechion hyn yn dod i'r amlwg mewn strategaethau cenedlaethol ac yng nghanllawiau'r sector. Ym mis Ebrill 2025, roedd Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol newydd Llywodraeth Cymru (a'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio sy'n cyd-fynd â hi) yn cyfeirio'n amlwg at Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, gyda chyfeiriad at y Comisiynydd Plant a phum egwyddor y Ffordd Gywir. Mae'r fersiwn ddiwygiedig o ganllawiau statudol Cymru – Gwlad Lle Mae Cyfle i Chwarae bellach yn cymeradwyo Y Ffordd Gywir fel arfer gorau wrth wreiddio cyfranogiad a hawliau plant, tra bod Pecyn Offer Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2024 yn dweud bod y fframwaith yn offeryn ymarferol ar gyfer cymhwyso'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol. Yn yr un modd, mae'r fersiwn addas i blant o Cynyddu Ymwybyddiaeth o Hawliau Plant yng Nghymru 2025 yn cymeradwyo'r fframwaith ac yn annog sefydliadau i fabwysiadu Y Ffordd Gywir. Mae'r canllawiau drafft ynghylch Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, Cyflawni Dros Bobl Ifanc (2024) hefyd yn cyfeirio awdurdodau lleol at Y Ffordd Gywir fel sylfaen ar gyfer datblygu dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol. Mae CPC yn dal i ddatblygu dull gweithredu'r Ffordd Gywir a bydd canllaw y Ffordd Gywir i gyllidebu yn cael ei gyhoeddi yn y man. Gwelir bod y fframwaith yn cael ei gymhwyso mwy a mwy mewn ymarfer, gan sicrhau lle i hawliau plant fel egwyddor ganolog yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

## 4.2.5 Ymateb i Gobeithion i Gymru: Sicrhau bod Hawliau'n cael eu Gwireddu

Amlygodd ymgynghoriad Gobeithion i Gymru bwysigrwydd sicrhau bod hawliau plant yn cael eu gwireddu yng Nghymru, ac mae'n sylfaen i ymrwymiad strategol CPC. Dywedodd plant a phobl ifanc eu bod am gael mwy o gyfleoedd i ddysgu am eu hawliau a sut i'w defnyddio, tra bod rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol wedi gofyn am wella ymwybyddiaeth o hawliau plant ar draws ysgolion a gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig mewn perthynas â chymorth iechyd meddwl, bwlio, a chynnwys plant ag ADY, gyda mwy o gefnogaeth i rieni i helpu plant i "ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at wahaniaethau" o oedran cynnar. Roedd plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr yn argymell yn gyson y dylai plant a phobl ifanc gael cefnogaeth i fod yn fwy ymwybodol ac yn fwy parod i dderbyn gwahaniaethau, gan gynnwys anabledd, hunaniaeth rhywedd, LHDTCI+, hil a chrefydd.

Llywiwyd dull gweithredu'r Comisiynydd fel Arwr Hawliau gan y cipolygon hyn o ran gwreiddio addysg am hawliau yn y Cwricwlwm i Gymru, gwella fframwaith Y Ffordd Gywir er mwyn cryfhau atebolrwydd proffesiynol, a chefnogi cyrff cyhoeddus i gymhwyso egwyddorion hawliau plant mewn polisi ac ymarfer.

Roedd mwy o blant a phobl ifanc o deuluoedd incwm isel, plant a phobl ifanc ag anabledd neu rai nad ydynt yn ystyried eu hunain yn fechgyn nac yn ferched, yn dweud bod pobl yn eu trin yn wahanol oherwydd pwy oeddent. Mae angen hoelio'r sylw ar addysg am hawliau ac ymarfer proffesiynol yn y meysydd hyn er mwyn cau'r bylchau hyn a sicrhau bod hawliau plant yn cael eu gwireddu mewn modd teg a chyson ar draws Cymru. Mae cryfhau cyrhaeddiad a chynwysoldeb addysg am hawliau yn hanfodol bwysig felly er mwyn sicrhau bod profiadau pob plentyn yn cael eu hadlewyrchu. Gellid ehangu'r addysg ymwybyddiaeth o hawliau plant a ddarperir gan Comisiynydd i gynnwys ffocws cryfach ar wahaniaeth, gan gynnwys anabledd, hil, hunaniaeth rhywedd, a nodweddion gwarchodedig eraill er mwyn helpu plant a gweithwyr proffesiynol i archwilio sut i gymhwyso hawliau mewn cyd-destunau gwahanol a herio'r anghydraddoldeb a amlygwyd trwy Gobeithion i Gymru. Byddai'r dull gweithredu hwn yn dyfnhau dealltwriaeth o hawliau plant fel profiadau bywyd yn hytrach nag egwyddorion haniaethol, ac yn cefnogi gwireddu'r hawliau hynny mewn modd mwy cyson ledled Cymru.

Gwelwyd bod y gweithwyr proffesiynol a gymerodd ran yn arolwg Gobeithion i Gymru yn aml yn amlygu'r angen i feithrin gallu rhieni a gofalwyr i helpu plant a phobl ifanc i ddeall a pharchu gwahaniaethau o oedran cynnar. Mae'r Gynghrair Gwrth-fwlio wedi cynhyrchu Pecyn i Rieni a Gofalwyr Cymru s (2024) a luniwyd i helpu rhieni i ddechrau sgyrsiau am fwlio, gan gynnwys themâu gwahaniaeth a pharch. Mae Plant yng Nghymru trwy fenter Cyswllt Rhieni Cymru wedi datblygu hyfforddiant i helpu rhieni a gofalwyr i ddysgu am hawliau plant, ac i feithrin eu gallu i gyflawni rôl weithredol wrth hyrwyddo lleisiau eu plant a'u cyfranogiad mewn prosesu gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, nid ydynt yn rhaglenni cenedlaethol a byddai gofyn buddsoddi ynddynt a chynyddu eu graddfa fel eu bod ar gael i bob rhiant. Mae'n bosib y gallai CPC gynyddu ymwybyddiaeth yn y maes hwn, er mwyn ymateb i'r pryderon a godwyd yn Gobeithion i Gymru.

## 4.2.6 Bylchau a heriau

Fel Arwr Hawliau, mae CPC wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cryfhau ymwybyddiaeth o hawliau plant a chefnogi gwasanaethau cyhoeddus i wreiddio'r hawliau hyn mewn ymarfer. Fodd bynnag, mae angen cymryd camau pellach mewn rhai meysydd allweddol o hyd er mwyn sicrhau bod plant yn gallu deall eu hawliau, eu harfer, a dylanwadu arnynt. Mae cynlluniau megis Cymru sy'n Croesawu Plant a'r polisi cwynion enghreifftiol yn gyfleoedd pwysig i ddyfnhau'r gwaith hwn. Mewn trafodaethau cychwynnol gyda rhanddeiliaid allweddol, sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, UNICEF y DU, a digwyddiadau cyfranogi megis Digwyddiad Caerdydd sy'n dda i Blant ym mis Hydref 2023, edrychwyd ar sut y gellid gwella'r gwaith cynyddu ymwybyddiaeth trwy ddull sy'n ystyriol o blant ond mae canlyniadau gweladwy yn dal i ddod i'r amlwg. Yn yr un modd, mae polisi cwynion enghreifftiol yn cael ei ddatblygu i alluogi plant i godi pryderon, gyda gweithgareddau cwmpasu a chasglu data wedi'u cynnal, gan gynnwys dadansoddi data Beaufort, sy'n gosod sylfaen ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Bydd hyrwyddo'r cynlluniau hyn yn allweddol er mwyn sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed yn gyson a bod systemau'n ymateb yn effeithiol i'w hawliau a'u pryderon.

Gwnaed cynnydd nodedig mewn ysgolion a lleoliadau addysg ond gwerthuswyd yr hyfforddiant gyda gweithwyr proffesiynol yn unig. Mae angen system fwy trylwyr i olrhain canlyniadau mewn ysgolion i blant a gweithwyr proffesiynol er mwyn deall effaith y gwaith ac amlygu bylchau. Yn ogystal, dywedodd y gweithwyr proffesiynol a gymerodd ran yn arolwg Gobeithion i Gymru, y byddai rhieni a gofalwyr yn elwa o gael hyfforddiant a chymorth ychwanegol i helpu eu plant i arfer eu holl hawliau a'u llesiant. Byddai sylw i'r bwlch hwn yn atgyfnerthu arferion cynhwysol ac arferion seiliedig ar hawliau mewn teuluoedd a chartrefi.

Mae fframwaith Y Ffordd Gywir wedi dod yn offeryn gwerthfawr sy'n derbyn cydnabyddiaeth helaeth yng Nghymru, ond mae cyfleoedd i ehangu ei gwmpas a'i ddylanwad. Mae'r gwaith o wreiddio dull hawliau plant yn gyson ar draws gwasanaethau cyhoeddus yn parhau, a gellid cryfhau gwelededd ac atebolrwydd Y Ffordd Gywir trwy fecanweithiau megis prawf craffu y Ffordd Gywir ar ddeddfwriaeth newydd, dangosfwrdd sy'n weladwy i'r cyhoedd, neu atgyfnerthu hawliau cyfranogi mewn modd statudol o dan Erthygl 12 o CCUHP, er mwyn sicrhau bod lleisiau plant yn dal i lywio polisi, ymarfer a prosesau gwneud penderfyniadau. Byddai olrhain pa ysgolion a sefydliadau sy'n mabwysiadu'r fframwaith yn eu hymarfer yn gefnogaeth bellach i welliannau seiliedig ar dystiolaeth, yn dangos deilliannau amlwg ac yn cynnal momentwm.

O roi sylw i'r bylchau hyn, gall CPC barhau i gyflawni ei rôl fel Arwr Hawliau, a sicrhau bod y grym, yr wybodaeth a'r gefnogaeth gan holl blant Cymru i ymarfer eu holl hawliau, a bod gwasanaethau cyhoeddus yn atebol iddynt ac yn ymateb i'w hanghenion.

# 4.3 Goleuo'r gwir

## 4.3.1 Trosolwg

Er mwyn Goleuo'r Gwir, mae CPC yn cefnogi ac yn grymuso plant a phobl ifanc i rannu eu profiadau amrywiol gyda llunwyr penderfyniadau. Drwy ddefnyddio'i gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu i daflu goleuni ar faterion penodol ac amlygu storïau a anwybyddwyd, mae CPC yn sicrhau bod profiadau bywyd plant, boed cadarnhaol neu negyddol, yn llywio'i blaenoriaethau ac yn sbardun i'w gwaith cynyddu ymwybyddiaeth a gweithredu. Mae CPC yn gweithio i sicrhau lle canolog i'r cipolygon hyn wrth lywio, datblygu a gweithredu polisïau ledled Cymru, dylanwadu ar benderfyniadau cyrff cyhoeddus, cryfhau atebolrwydd, a dadlau o blaid gwelliannau systemig. Gan fanteisio ar safle unigryw y Comisiynydd ym mywyd dinesig Cymru, mae CPC yn cysylltu'n uniongyrchol â llunwyr penderfyniadau, swyddogion llywodraeth, a'r cyfryngau cenedlaethol i sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed ac yn destun gweithredu.




- Support COVID-19 recovery
- Pursue 'No Wrong Door' model
- Convene annual Child Poverty Summit
- Review ALN Act implementation
- Review statutory guidance and bullying
- Explore broader inequalities
- Understand where children live
- Tackle key service provision
- Address inconsistent DBS checks

## 4.3.2 Prif ganfyddiadau

Er mwyn Goleuo'r Gwir, mae CPC wedi tynnu sylw at brofiadau plant a phobl ifanc er mwyn dylanwadu ar bolisi, ymarfer a thrafodaethau cyhoeddus yng Nghymru. Gan weithio ar draws nifer o feysydd thematig, mae'r sefydliad wedi sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn llywio penderfyniadau ac yn sbarduno newid systemig. Drwy gynyddu ymwybyddiaeth yn seiliedig ar dystiolaeth, gwaith ymchwil a dargedir, ac ymgysylltiad gweithredol â phlant a phobl ifanc a chyrff cyhoeddus, mae CPC wedi amlygu profiadau bywyd plant mewn sawl maes. Mae'r rôl Goleuo'r Gwir wedi arwain at ddylanwad mesuradwy ar bolisïau, at wella canllawiau statudol a chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r heriau systemig sy'n effeithio ar blant, yn enwedig o ran iechyd meddwl, tlodi plant, darpariaeth ADY, cynhwysiad, a diogelu. Mae cynlluniau parhaus, megis y model Dim Drws Anghywir a gwaith mwy cyffredinol i atal anghydraddoldeb yn parhau i wreiddio lleisiau plant mewn prosesau gwneud penderfyniadau a chyflwyno gwasanaethau.

### Cefnogi plant a phobl ifanc i ymadfer wedi pandemig Covid-19

Cyfrannodd CPC dystiolaeth sylweddol i Ymchwiliad Covid-19 y Deyrnas Unedig, gan gynnwys datganiadau tyst, adroddiadau, nodiadau o gyfarfodydd, a gohebiaeth rhwng 2020 a 2022. Cyflwynodd y Comisiynydd dystiolaeth lafar ym mis Chwefror a mis Mawrth 2024, a ganolbwyntiai ar ddefnyddio asesiadau o'r effaith ar hawliau plant wrth lywio penderfyniadau'r llywodraeth. Yn ogystal, mae CPC yn gyfranogwr craidd ym Modiwl 8 (Plant a Phobl Ifanc) yr Ymchwiliad, gyda sesiynau cyflwyno tystiolaeth yn cael eu cynnal ym mis Medi 2024 a mis Mehefin 2025. Cafodd sesiynau Chwefror–Mawrth 2024 sylw yn y cyfryngau a dynnodd sylw at fau ysgolion, ac mae profiadau plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael ystyriaeth benodol yn yr Ymchwiliad.

### Iechyd meddwl Plant a mynd ar ôl y model Dim Drws Anghywir

Mae CPC wedi hyrwyddo'r model Dim Drws Anghywir ers tro byd, sef y cysyniad o wasanaethau cydgysylltiedig sy'n cynnig profiad di-fwlch i blant a theuluoedd sy'n chwilio am gymorth. Mae CPC wedi parhau i hyrwyddo'r model hwn trwy ymgysylltu'n uniongyrchol â phob bwrdd iechyd yng Nghymru ar hyd y cyfnod strategol hwn. Lansiwyd y Dull Dim Drws Anghywir o Ddelio â Niwroamrywiaeth: llyfr o brofiadau ym mis Mawrth 2023, datblygwyd cynllun dylanwadu a chynhaliwyd cyfres o Sesiynau Bord Gron ar Iechyd Meddwl.

Derbyniodd y dull Dim Drws Anghywir o ymdrin â niwroamrywiaeth gydnabyddiaeth mewn cyfarfodydd llawn, yn y wasg ac yng nghyd-adolygiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn, a amlygodd fylchau mewn cymorth cyn ac ar ôl derbyn diagnosis. Yn ogystal, mae'r model Dim Drws Anghywir wedi cyfrannu at greu hybiau llesiant penodedig sy'n darparu cymorth 24/7 i bobl ifanc mewn argyfwng, gan gynnwys The Hangout yng Nghaerdydd (Medi 2023) ac ail safle yn y Barri (Tachwedd 2024), a Hwb Llesiant Bro Myrddin yng Nghaerfyrddin (Gorffennaf 2023).

### Cynnull uwchgynhadledd tlodi plant genedlaethol i herio'r Llywodraeth a gwasanaethau a dylanwadu arnynt ynghylch tlodi plant

Aeth CPC a'i phartneriaid ati i gynnull Uwchgynhadledd Tlodi Plant genedlaethol gyntaf Cymru gan gynhyrchu adroddiad a lywiodd ymatebion ymgynghori i'r fersiwn ddrafft o Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru. Cyfeiriwyd at yr argymhellion, gan gynnwys defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant a gwreiddio egwyddorion CCUHP, yn Strategaeth Tlodi Plant Cymru, mewn dadleuon yn y Senedd, ac yn adroddiadau'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. Ni fabwysiadwyd pob argymhelliad, ond mae'r strategaeth bellach yn cynnwys ymrwymiad pendant i ymgorffori dull gweithredu hawliau plant ar draws rhaglenni, i gynnwys tlodi yn arolygiadau Estyn, ac i wreiddio egwyddorion CCUHP yn y Cwricwlwm newydd i Gymru. Cyhoeddwyd fframwaith monitro hefyd ym mis Hydref 2024, i oruchwylio'r gwaith cyflawni.

Ochr yn ochr â hyn, ymunodd CPC â gweithgor Llywodraeth Cymru ar Symleiddio Budd-daliadau Cymru, i hyrwyddo'r galwadau o'i hadroddiad Siarter ar gyfer Newid 2019 ynghylch taclo tlodi plant. Rhan ganolog o hynny yw egwyddor darparu mynediad hwylus neu gofrestru teuluoedd cymwys yn awtomatig ar gyfer pob budd-dal perthnasol unwaith y bydd gan awdurdod lleol dystiolaeth o'u hamgylchiadau ariannol. Yn rhan o'r pecyn ehangach o gamau i daclo tlodi plant, mae sicrhau bod teuluoedd yn cael yr holl gymorth sydd ar gael iddynt yn flaenoriaeth allweddol o hyd. I gefnogi hynny, cyfarfu CPC droeon â swyddogion a chyflwynodd grynodeb o dystiolaeth ysgrifenedig a gofnodai leisiau a phrofiadau bywyd plant yng Nghymru i Dasglu Gweinidogol y Deyrnas Unedig ar Dlodi Plant. Parhaodd y llinyn gwaith hwn ar hyd 2025, gan fwydo i mewn i Strategaeth Tlodi Plant ohiriedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

### Effeithiolrwydd a chysondeb gweithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yng Nghymru

Dylanwadodd CPC ar weithrediad Deddf ADY trwy bartneriaethau, trwy gyflwyno tystiolaeth a thrwy gyfranogi (fel sylwedydd) yng Ngrŵp Llywio Cenedlaethol Diwygio ADY. Roedd gweithgareddau'n cynnwys cynhyrchu fideo i dynnu sylw at brofiadau teuluoedd, ymateb i ymgyngoriadau deddfwriaethol, a rhoi cymorth a chyngor unigol i 196 o achosion oedd yn ymwneud ag ADY. Ymhlith y canlyniadau roedd penderfyniad y llywodraeth i fabwysiadu'r argymhellion ynghylch adnoddau a chynllunio'r gweithlu, dyfynnu cyd-adroddiad CPC mewn

dadleuon yn y Senedd, cyfeiriadau yn adroddiadau Estyn, a'r fersiwn drafft o Gynllun Hawliau Pobl Anabl (2025–2035) oedd yn tynnu sylw at ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer plant ag ADY.

### Canfod pam nad yw'r canllawiau statudol fel petaen nhw'n taclo bwlio mewn ysgolion

Cynhaliodd CPC gyfres o weithgareddau i gryfhau polisi ac ymarfer gwrthfwlio, yn enwedig mewn perthynas â hiliaeth. Gan dynnu ar ei gwaith ymchwil ei hun, megis Cymerwch y Peth o Ddifri, a dynnodd sylw at brofiadau plant o fwlio hiliol mewn ysgolion uwchradd, mae'r Comisiynydd wedi gofyn am ganllawiau cliriach ar sut y dylai ysgolion gofnodi'r digwyddiadau hyn ac ymdrin â nhw. Roedd hyn yn cynnwys ymateb i ymgyngoriadau yn 2023 a 2025 ar ganllawiau ar gyfer dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac ar fframwaith drafft Llywodraeth Cymru, Hawliau, Parch, Cydraddoldeb. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhellion ynghylch sicrhau bod ysgolion yn monitro bwlio cysylltiedig â rhagfarn mewn modd mwy effeithiol, gyda chategorïau penodol ar gyfer digwyddiadau hiliol yn seiliedig ar ffactorau megis ethnigrwydd, treftadaeth grefyddol neu statws ffoadur. Bellach, mae'r canllawiau gwrthfwlio statudol diwygiedig yn gofyn bod ysgolion yn cofnodi pob digwyddiad bwlio fesul math, gan wreiddio atebolrwydd cryfach a sicrhau bod hawliau a phrofiadau plant yn ganolog i ymdrechion gwrthfwlio.

### Archwilio anghydradoldeb mwy cyffredinol, gan gynnwys anabledd, hil ac LHDTC+

Hiliaeth: Cyflwynodd Cymerwch y Peth o Ddifri, sef adroddiad y Comisiynydd ar hiliaeth mewn ysgolion yn 2023, 14 argymhelliad i Lywodraeth Cymru. Cafodd 11 ohonynt eu derbyn yn llawn, mewn egwyddor neu'n rhannol. Roedd hyn yn cynnwys ymrwymiadau i ddiweddaru'r canllawiau gwrthfwlio statudol, datblygu hyfforddiant ac adnoddau dysgu proffesiynol newydd, cryfhau cymorth i lywodraethwyr ysgol, a gwella'r gwaith o gofnodi ac adrodd ar ddigwyddiadau hiliol. Adleisiwyd canfyddiadau'r Comisiynydd yn Adroddiad Blynyddol Estyn 2024, Tuag at Gymru Wrth-hiliol, ac yn atgyfnerthu'r galw am newid systemig.

Anabledd: Ym mis Mawrth 2025, croesawodd y Comisiynydd ddigwyddiad yn Llanelwy gyda mwy nag 80 o weithwyr proffesiynol, wedi'i gyd-ddylunio â phobl ifanc o Ysgol St Christopher, Wrecsam. O ganlyniad, dywedodd cyfranogwyr y byddent yn addasu eu dulliau gweithredu ac yn rhannu'r gwersi a ddysgwyd er mwyn gwreiddio lleisiau plant wrth ddatblygu gwasanaethau. Dywedodd y bobl ifanc a gymerodd ran eu bod wedi cael gwrandawiad, eu bod yn teimlo'n fwy hyderus, ac wedi gweld eu cyfraniad yn llywio ymarfer mewn ffordd real. Er mwyn hyrwyddo llais a gweithrediad, mae CPC wedi cefnogi plant a phobl ifanc ag anableddau i ddylanwadu ar ddiwygiadau i ganllawiau chwarae, ac mae'r canllawiau statudol diwygiedig ar ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae Cymru – Gwlad lle mae Cyfle i Chwarae bellach yn cynnwys pennod estynedig ar ymgynghori, cyfranogi ac ymgysylltu, gan gynnwys cyfeiriad at fframwaith a chanllawiau Y Ffordd Gywir. Mae CPC hefyd wedi amlygu problemau o ran teithio gan ddysgwyr, gan gyhoeddi sefyllfa bolisi ar Deithio gan Ddysgwyr a amlinellai bryderon ac ymrwymiadau. Er mwyn cefnogi mynediad at addysg, mae CPC wedi annog y Tasglu Presenoldeb Cenedlaethol i ystyried hawliau ac anghenion plant a phobl ifanc anabl, ac wedi dal Llywodraeth Cymru i gyfri am gyflawni argymhellion Ymchwiliad Pwyllgor Plant y Senedd. Mae CPC wedi parhau i eiriol ar ran plant ag ADY, gan rannu cipolygon yn sgîl gwaith achosion trwy'r Grŵp Llywio Gweithredu ADY a chyfrannu at adolygiad Archwilio Cymru o gynaliadwyedd y system. Cafodd teuluoedd gefnogaeth gan CPC i greu The Constant Fight, ffilm fer sy'n amlygu'r heriau parhaus yn y system ADY, a gafodd ei rhannu ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, ac a lywiodd adolygiad y Llywodraeth o'r fframwaith deddfwriaethol. Hefyd, cyfrannodd y Comisiynydd at ddatblygu gweledigaeth a chynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu, o dan arweiniad Gwella Anableddau Dysgu Cymru, yng Ngweithrediaeth y GIG. I gefnogi cyfleoedd cyflogaeth, mae CPC wedi codi pryderon ynghylch cwtogi mynediad at gyngor gyrfaoedd a phrofiad gwaith i bobl ifanc ag anableddau, wedi cysylltu â'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol i edrych ar ddewisiadau cyllido yn y dyfodol, ac wedi cyfrannu at Weithgor Plant a Phobl Ifanc Tasglu Anabledd Llywodraeth Cymru, i ddatblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer ymgynghoriad yng ngwanwyn 2025.

Plant Sipsiwn, Roma, a Theithwyr: Drwy ymateb i ymgyngoriadau, cafodd y Comisiynydd ddylanwad ar ganllawiau Dathlu a Chyfranogi 2023 Llywodraeth Cymru, a oedd yn ymgorffori argymhellion allweddol megis hyfforddiant ar gyfer staff ysgol, cyfeiriadau at y fframwaith cenedlaethol ar lesiant emosiynol a meddyliol, ac ychwanegu adnoddau ymarferol gan gynnwys hyperddolenni i ganllawiau newydd a'r llawlyfr ar gyfer addysgwyr cartref.

LHDTC+: Cyfarfu'r Comisiynydd â grwpiau LHDTC+ a chyd-arwyddo llythyr gydag elusennau yn galw ar Lywodraeth Cymru ddarparu mwy o amddiffyniad a mesurau penodol ar gyfer dysgwyr traws, er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn derbyn ystyriaeth benodol mewn polisïau addysg.

**Mynd i'r afael â diffyg darpariaeth mewn gwasanaethau allweddol, gan gynnwys ysgolion a lleoliadau addysg arbenigol**

Amlygodd CPC fylchau mewn darpariaeth addysgol, gan gynnwys ysgolion a lleoliadau addysg arbenigol, trwy adroddiad sbotolau ar leoliadau gofal iechyd. Arweiniodd hynny at sylw ar y BBC, trafodaethau yn y Senedd, ac ymrwymiad gan y llywodraeth i ddiwygio'r canllawiau Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd, i egluro'r disgwyliadau ar gyfer awdurdodau lleol a sicrhau bod dysgwyr yn derbyn tua 25 awr o addysg yr wythnos.

**Gwiriadau DBS a chanllawiau Estyn**

Cynhaliwyd cyfarfod bord gron i drafod gwiriadau DBS ym mis Medi 2025 er mwyn rhoi sylw i arferion anghyson mewn ysgolion ac awdurdodau lleol. Ni chafodd y deilliannau eu cofnodi hyd yn hyn.

**Llety i blant a'u teuluoedd:** Bu'r Comisiynydd wrthi'n ymchwilio i effaith tai a digartrefedd ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Ym mis Ebrill 2025, cofnododd adroddiad sbotolau Effaith tai a digartrefedd ar blant a phobl ifanc brofiadau plant o dai gorlawn, lleithder a llwydni, diffyg preifatrwydd, ansefydlogrwydd a'r effeithiau negyddol ar eu haddysg a'u hiechyd meddwl. Trafodir rhagor o ganlyniadau'r gwaith hwn yn adran yr Heriwr.

Mae'r astudiaethau achos yn yr adran hon yn canolbwyntio ar y cynllun Dim Drws Anghywir a phrosiectau sy'n ymwneud â Deddf ADY, sy'n dangos sut mae rôl CPC fel un sy'n Goleuo'r Gwir yn amlygu lleisiau plant, yn cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd ac ymwybyddiaeth polisi, ac yn cyfrannu at newid ystyrlon ar draws Cymru. Mae astudiaeth achos Straeon Cynhwysiad: Cwmpas Ehangach Dim Drws Anghywir yn dangos cyfraniad CPC i newid systemig a sut mae negeseuon pwerus wedi cyfrannu at fframweithiau trosfwaol sy'n cryfhau hawliau plant a phobl ifanc ar draws polisïau a sefydliadau, tra bod astudiaeth achos Rôl CPC o ran Rhoi Deddf ADY ar waith trwy Waith Achosion yn amlygu'r effaith weladwy ar blant a theuluoedd unigol.

## 4.3.3 Astudiaeth achos: **Straeon Cynhwysiad: Cwmpas Ehangach Dim Drws Anghywir**

Bu'r dull gweithredu Dim Drws Anghywir, sydd wedi'i fabwysiadu'n helaeth, a gwaith CPC i hyrwyddo gwasanaethau cydlynus, di-fwlch sy'n galluogi plant a theuluoedd i gael y cymorth y mae arnynt ei angen heb rwystrau diangen, yn gyflawniad pwerus ar hyd y cyfnod strategol diwethaf. Mae CPC wedi gwreiddio egwyddor Dim Drws Anghywir yn gadarn yn agenda polisi Cymru, â'r neges rymus na ddylid byth gwrthod mynediad i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd sy'n chwilio am gymorth, ac y dylid eu cyfeirio at y cymorth cywir.

Roedd y gweithgareddau cynyddu ymwybyddiaeth hyn yn ymateb yn fanwl i'r prif bryderon a fynegwyd gan rieni a gofalwyr yn arolwg Gobeithion i Gymru, gyda nifer ohonynt yn pwysleisio bod angen gwasanaethau iechyd meddwl mwy hygyrch, amseroedd aros byrrach, a mwy o gymorth i blant a phobl ifanc. Roedd cyfatebiaeth agos hefyd â'r pryderon a godwyd gan weithwyr proffesiynol yn ymgynghoriad Gobeithion i Gymru, a alwodd yn gyson am brosesau atgyfeirio cyflymach ac integreiddio gwasanaethau yn well er mwyn ymdrin yn brydlon ag anghenion iechyd meddwl. Trodd adroddiad CPC Gwneud Cymru'n

Genedl Dim Drws Anghywir 2022 y cysyniad yn uchelgais genedlaethol. Galwodd ar Lywodraeth Cymru a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn "lapio o amgylch unigolion a theuluoedd", yn hytrach na disgwyl i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd lwybro trwy systemau cymhleth a thameidiog. Dilynwyd yr adroddiad hwn gan adroddiad Dull Dim Drws Anghywir o Ymdrin â Niwroamrywiaeth yn 2023.

O ganlyniad i'r gwaith hwn gan CPC i gynyddu ymwybyddiaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r model a gwreiddio Dim Drws Anghywir yn fframwaith NEST/NYTH ar gyfer cymorth iechyd meddwl a chymorth niwroddatblygiadol i blant a phobl ifanc. Fe'i sefydlwyd fel egwyddor greiddiol ymarferol sy'n dangos sut y dylid dylunio a chyflwyno gwasanaethau. Bellach, mae Dim Drws Anghywir wedi'i wreiddio mewn dogfennau polisi sy'n ymwneud ag Iechyd Meddwl a Niwroamrywiaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio eto yn ei Hasesiad o Effaith y Strategaeth Iechyd Meddwl Plant fod dull gweithredu Dim Drws Anghywir yn allweddol, ac mae'r Fframwaith ar gyfer Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau yn tynnu sylw at ddull gweithredu Dim Drws Anghywir ym maes cymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc.

Mae model gwasanaeth Dim Drws Anghywir wedi cael ei fabwysiadu'n gyflym ac yn ddi-fwlch mewn meysydd polisi cyhoeddus eraill. Bellach, cyfeirir at y dull gweithredu yn nadleuon y Senedd a'r Pwyllgorau, mewn nifer o feysydd lle bydd unigolion yn wynebu anghenion cymhleth a thrawsbynciol:

- **Gofal Iechyd ac Addysg**: Dadleuodd Hefin David AS o blaid cyflwyno dull Dim Drws Anghywir syml ar draws pob gwasanaeth cyhoeddus, yn enwedig pan fydd iechyd ac addysg yn croestorri, ar 13 Tachwedd 2025 yn ystod Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.
- **Anabledd Dysgu**: Eto, pwysleisiodd Hefin David AS bwysigrwydd cefnogaeth sy'n addasu ar gyfer teuluoedd yn hytrach nag i'r gwrthwyneb, gan alw am ddull Dim Drws Anghywir ar 4 Rhagfyr 2024, mewn Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Lleoliad gofal awtistiaeth ac anableddau dysgu.
- **Digartrefedd**: Mae Gweinidogion ac Aelodau, gan gynnwys Julie James AS (ar 9 Tachwedd 2023 yn y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai) a Mabon ap Gwynfor AS (ar 18 Hydref 2023, Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Digartrefedd), wedi cyfeirio'n benodol at yr egwyddor wrth ymdrin â digartrefedd, gan bwysleisio bod angen osgoi gyrru unigolion yn ôl ac ymlaen rhwng gwasanaethau.
- **Tai Cynnes a Thlodi**: Cyfeiriodd Julie James AS (ar 12 Mawrth 2024 yn Natganiad y Gweinidog Newid Hinsawdd) a Peredur Owen Griffiths AS (ar 12 Gorffennaf 2023 yn Nadl y Pwyllgor Cyllid) at y syniad hwn yng nghyswllt cyngor ynghylch ynni, cymorth â'r dreth gyngor, a mesurau gwrth-dlodi ehangach, er mwyn sicrhau bod teuluoedd mewn angen yn cael eu cyfeirio at y rhwydi diogelwch cywir.
- **Cefnogaeth â Chyflogaeth a Cholli Swyddi**: Cyfeiriodd Vaughan Gething AS at Dim Drws Anghywir wrth alw am gydgysylltu ymatebion i ddileu swyddi ar raddfa fawr, gan bwysleisio'r angen am lwybrau di-fwlch rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru (ar 17 Ionawr 2024, Cwestiynau Amserol).
- **Dylunio System Gofal Iechyd**: Fe'i trafodwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 8 Chwefror 2024 yng nghyd-destun taith y claf, gan herio'r model sy'n canolbwyntio ar yr ysbyty a dadlau bod angen i wasanaethau addasu i anghenion yr unigolyn.
- **System Budd-daliadau Cymru**: Ar 25 Medi 2025, edrychodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar egwyddor Dim Drws Anghywir yng nghyd-destun cymorth lles, gan ei chysylltu â chynlluniau treialu siop un stop yn yr Alban.


Mae'r ffaith bod Dim Drws Anghywir wedi ymledu i'r meysydd gwahanol hyn yn adlewyrchu ei natur hyblyg sy'n taro tant. Mae'n cynnig iaith unedig ar gyfer integreiddio gwasanaethau ar draws parthau amrywiol iawn megis tai, tlodi, addysg, iechyd, a nawdd cymdeithasol.

Yn bwysig iawn, mae ymlediad y cynllun a'r ffaith iddo gael ei fabwysiadu ar raddfa eang, yn amlygu dylanwad y Comisiynydd Plant o ran gosod yr agenda: trwy grisialu Dim Drws Anghywir fel un o'r disgwyliadau craidd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, mae'r Comisiynydd wedi helpu i wreiddio egwyddor sydd bellach yn cael ei chymhwyso gan lunwyr polisi y tu hwnt i'r cyd-destun gwreiddiol, sef iechyd meddwl a niwroamrywiaeth. O'i gwreiddiau yn y gwasanaethau plant, mae egwyddor Dim Drws Anghywir wedi tyfu i fod yn syniad elfennol ar draws sectorau yng Nghymru. Bellach, mae'n gyfystyr â gwasanaethau cyhoeddus cydlynus ac ymatebol ar draws gwaith y Senedd, o ddigartrefedd i dlodi i ddiwygiadau lles. Mae galwad gwreiddiol y Comisiynydd Plant bellach yn ethos cenedlaethol cyffredinol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau.

## 4.3.4 Astudiaeth achos: **Rôl CPC wrth Roi Deddf ADY ar waith trwy waith achosion**

Mae Gwasanaeth Cynghori CPC yn cynnig cyngor cyfrinachol a diduedd am ddim i unigolion sy'n chwilio am gymorth ag ystod eang o faterion sy'n rhan o gylch gorchwyl y swyddfa. Mae'n helpu pobl i ddeall eu hawliau, i edrych ar y dewisiadau sydd ar gael, ac i gael mynediad at atebion ymarferol, boed hynny'n ymwneud â hawliau addysg, y gwasanaethau cymdeithasol, mynediad i wasanaethau iechyd, a chwynion. Rhwng Ebrill 2023 a Mehefin 2025, deliodd y gwasanaeth â 1520 o achosion.

O ran achosion ADY, mae'r tîm yn cysylltu â'r awdurdodau perthnasol (awdurdodau lleol, ysgolion) pan fydd hynny'n berthnasol, er mwyn helpu plant a phobl ifanc i gael mynediad i'w hawliau o dan y Ddeddf ADY. Rhwng Ebrill 2023 a Mehefin 2025, roedd 198 (13%) o'r achosion a ddaeth i law y Gwasanaeth Cynghori yn ymwneud ag ADY.




*Ffigur 5 Achosion cysylltiedig ag ADY gan y Llinell Gynghori yn ôl statws, Ebrill 2023–Mehefin 2025*

Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd 37% o'r achosion hyn eu datrys drwy gamau cyswllt gan CPC, a chofnodwyd crynodeb o ganlyniadau'r achos. Cafodd 55% o'r achosion eu datrys â chyngor ac atgyfeirio heb angen ymyriad pellach gan y swyddfa. Mae'r dadansoddiad o'r achosion hyn yn cynnig darlun manwl o gyd-destun cefnogaeth CPC ar gyfer gweithredu'r Ddeddf ADY.

Defnyddiodd teuluoedd y gwasanaeth i roi gwybod am ystod o faterion cysylltiedig ag ADY, gan gynnwys oedi o ran cynnal asesiadau, bylchau mewn darpariaeth, a lleoliadau anaddas.

Mae CPC wedi cefnogi teuluoedd i sicrhau canlyniadau cadarnhaol mewn ymateb i'r heriau hyn, gan gynnwys lleoliadau mwy addas lle na fodlonwyd anghenion plant, trefnu neu newid darpariaeth cludiant i'r ysgol er mwyn sicrhau bod plant yn gallu cael mynediad i addysg, adfer neu gynyddu oriau darpariaeth lle gadawyd plant ag ychydig o gymorth neu ddim cymorth, hwyluso pecynnau Derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) pan oedd anghenion iechyd neu fethiant lleoliad wedi gadael disgyblion heb addysg, ac ysgogiad i gwblhau asesiadau a Chynlluniau Datblygu Unigol a ddaliwyd yn ôl.

Yn yr achosion hyn, gwnaeth y canlyniadau wahaniaeth gweladwy i fywydau plant: roedd modd i blant a phobl ifanc gyrchu addysg gyda'r cymorth cywir, cafodd rhieni eglurhad o'u hawliau a'r hyn y dylent ei gael, ac atgoffwyd awdurdodau lleol am eu cyfrifoldebau a'u hannog i gydymffurfio â'r Ddeddf ADY.

I gynnig un enghraifft, cysylltodd rhiant â'r Comisiynydd ar ôl darganfod nad oedd eu plentyn yn cael y cymorth y cytunwyd arno yn yr ysgol, er bod Cynllun Datblygu Unigol ganddo. Yn sgîl y diffyg darpariaeth hwn gadawyd y plentyn heb y cymorth angenrheidiol i dderbyn yr un addysg â'i gymheiriaid. Cysylltodd CPC yn uniongyrchol â'r awdurdod lleol i drafod y mater, gan ofyn am eglurhad a gweithredu ar fyrder. Yn dilyn hynny, cydnabu'r awdurdod bod bwlch yn y ddarpariaeth a threfnodd i ddarparu cymorth ychwanegol. I'r teulu, daeth yr ymyriad hwn â datrysiad yn lle rhwystredigaeth; i'r plentyn, roedd yn golygu cael y cymorth yr oedd hawl gyfreithiol ganddo i'w gael, a chael dysgu mewn modd oedd yn adlewyrchu ei anghenion.

Mae storïau fel y rhain yn dangos bod gwaith y Comisiynydd nid yn unig yn darparu cyngor ond hefyd yn cyflwyno atebion ymarferol sy'n gwella bywydau plant. Mae pob achos sy'n cael ei ddatrys hefyd yn arwydd i awdurdodau lleol: bod rhaid cyflawni dyletswyddau'r Ddeddf ADY ac nad yw hawl plant i dderbyn addysg yn agored i'w drafod.

## 4.3.5 Ymateb i gobeithion i Gymru: Goleuo'r gwir

### Bwlio

Datgelodd ymgynghoriad Gobeithion i Gymru bryderon parhaus am fwlio ymhlith plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai â nodweddion gwarchodedig, ochr yn ochr â phryderon am ddiogelwch yn yr ysgol, yn y gymuned, ac ar-lein. Adleisiodd gweithwyr proffesiynol y pryderon hyn, gan sôn am brosesau riportio anghyson ac amrywiadau yn ymateb ysgolion ac awdurdodau lleol i broblemau bwlio.

I ymateb i hynny, mae'r Comisiynydd wedi defnyddio'i llwyfan Goleuo'r Gwir i amlygu'r profiadau bywyd hyn ac i hyrwyddo newid systemau. Roedd hyn yn cynnwys: gwaith ymchwil i hiliaeth a bwlio mewn ysgolion, Cymerwch y Peth o Ddifri, sydd wedi dylanwadu ar ganllawiau statudol diwygiedig ar atal bwlio sy'n gofyn bellach fod ysgolion yn cofnodi digwyddiadau yn ôl math; cynhyrchu Y Ffordd Gywir i Addysg, sy'n cwmpasu bwlio a chynhwysiad; a gweithio gydag Ofcom trwy'r Paneli Cynghori Ieuenctid i roi sylw i ddiogelwch ar-lein a chamwybodaeth. Mae'r camau hyn yn adlewyrchu rôl y Comisiynydd wrth drawsnewid pryderon plant yn ddiwygiadau polisi a chyfleoedd dysgu i'r sector.

### Iechyd meddwl

Daeth yn amlwg bod iechyd meddwl yn un o'r pryderon pennaf yn ymgynghoriad Gobeithion i Gymru, gydag ymatebion plant a phobl ifanc, rhieni, gofalwyr, a gweithwyr proffesiynol i gyd yn tynnu sylw at amseroedd aros hir, darpariaeth anghyson, a diffyg cymorth ymyrraeth gynnar a gwaith atal. Dywedodd nifer o blant a phobl ifanc a theuluoedd eu bod yn teimlo gorbryder, wedi'u gorlethu, neu'n ansicr ynghylch ble i droi i gael cymorth tra phwysleisiodd gweithwyr proffesiynol yr angen brys am ragor o gymorth a gwell cydgysylltu rhwng iechyd, addysg a gwasanaethau cymunedol.

Roedd y mwyafrif o'r rhieni a'r gofalwyr a ymatebodd i ymgynghoriad Gobeithion i Gymru yn ansicr o'u gallu i gael cymorth iechyd meddwl i'w plant. Roedd llai na'r hanner yn gwybod ble i fynd i gael cymorth iechyd meddwl a llesiant meddyliol i'w plant, ac nid oedd pedwar o bob pump yn hyderus y gallent gael mynediad cyflym at gymorth petai ei angen arnynt.

Yn ei gwaith Goleuo'r Gwir, mae'r Comisiynydd wedi gweithio'n gyson i amlygu'r profiadau hyn wrth alw am newid systemig, gan ddefnyddio tystiolaeth o waith achosion, y model Dim Drws Anghywir, ac arolygon Mater y Mis i dynnu sylw at effaith ddynol llwybrau iechyd meddwl tameidiog. Mae'r eiriolaeth hon wedi cyfrannu at fireinio fframwaith NYTH/NEST, wedi cryfhau atebolrwydd yn Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol Llywodraeth Cymru, ac wedi llywio gwaith craffu gan Bwyllgorau'r Senedd.

### Tlodi plant

Amlygodd ymgynghoriad Gobeithion i Gymru fod tlodi plant yn un o'r problemau parhaus mwyaf brys sy'n effeithio ar hawliau a llesiant plant yng Nghymru. Disgrifiodd rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol bwysau dyddiol yr argyfwng costau byw, gan gynnwys diffyg diogeledd bwyd, mynediad cyfyngedig at drafnidiaeth, a llai o gyfleoedd chwarae a hamdden am ddim neu isel eu cost. Yn eu hatebion, mynegodd y plant a'r bobl ifanc eu pryderon ynghylch cael digon o arian i fodloni anghenion sylfaenol eu teulu, gan gynnwys bwyd a thai, a'u rhwystredigaeth bod llunwyr penderfyniadau yn aml yn anwybyddu'r pryderon hyn.

I ymateb i hynny, mae'r Comisiynydd wedi defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd trwy ymgynghoriad Gobeithion i Gymru a gwaith achosion parhaus i gryfhau eiriolaeth genedlaethol ynghylch tlodi ac anghydraddoldeb. Mae ystadegau trawiadol o ddata Gobeithion i Gymru yn datgelu hyd a lled pryderon plant a phobl ifanc am yr argyfwng costau byw. Cafodd y dystiolaeth bwerus hon ynghylch nifer y plant yng Nghymru sy'n pryderu am gael digon i'w fwyta ei hadleisio mewn dadleuon yn y Senedd, ac fe'i defnyddiwyd i lywio sefyllfaoedd polisi, ymgyngoriadau a chamau eiriolaeth CPC.

Roedd y data gan weithwyr proffesiynol yn ymgynghoriad Gobeithion i Gymru hefyd yn amlygu'r angen am gefnogaeth gryfach yn ystod y blynyddoedd cynnar, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig. Nodir yn Strategaeth Tlodi Plant Cymru, "dylai buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar … fod yn ganolog" wrth fynd i'r afael â thlodi, ond nid yw'r diffiniad o eiriolaeth benodedig a rhaglenni â phwyslais ar gefnogaeth blynyddoedd cynnar i deuluoedd yn y cymunedau mwyaf difreintiedig mor eglur yn y parth cyhoeddus. Cydnabyddir pwysigrwydd y 1,000 diwrnod cyntaf a chymorth i deuluoedd, ond bu'r dadlau o blaid darpariaeth blynyddoedd cynnar wedi'i thargedu'n benodol mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd yn gyfyngedig. Mae angen cryfhau'r ymdrechion i gynyddu ymwybyddiaeth a hoelio sylw manylach ar anghydraddoldeb yn rhan o'r gwaith parhaus i ddelio â thlodi plant, gan gynnwys hyrwyddo darpariaeth seiliedig ar hawliau ar gyfer y blynyddoedd cynnar trwy fuddsoddi mwy mewn gwasanaethau cymunedol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r hyn a welwyd yn Gobeithion i Gymru sef y teimlad yn aml mai lleisiau plant o deuluoedd incwm isel sy'n cael eu clywed leiaf wrth wneud penderfyniadau. Er bod llais y Comisiynydd wedi dylanwadu ar strategaeth y llywodraeth, mae lle i ymgysylltu'n fanylach â phlant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi er mwyn sicrhau bod y lleisiau hyn yn llywio camau gweithredu yn uniongyrchol yn y dyfodol. Bydd cryfhau partneriaethau lleol gydag ysgolion, grwpiau cymunedol a rhwydweithiau cymorth i deuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig yn allweddol er mwyn sicrhau bod yr ymrwymiad cenedlaethol i ddileu tlodi plant yn adlewyrchu gwir sefyllfa'r rhai sy'n profi'r effaith fwyaf.

### ADY

Datgelodd ymgynghoriad Gobeithion i Gymru fod plant a phobl ifanc ag anableddau ac ADY yn llai tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn hapus neu fod pobl yn gwrando arnynt, ac mae'r grwpiau hyn yn dal i wynebu rhwystrau anghymesur i gynhwysiad llawn. Disgrifiodd nifer o deuluoedd a gweithwyr proffesiynol yr heriau a wynebir gan blant a phobl ifanc wrth geisio cael mynediad at gymorth arbenigol a chyfrannu'n llawn ym mywyd yr ysgol a'r gymuned. Soniodd rhieni am gyfleoedd cyfyngedig i ymuno â gweithgareddau, clybiau a chyfleoedd chwarae cynhwysol, yn enwedig mewn lleoliadau prif ffrwd, sy'n gadael rhai plant yn teimlo'n ynysig neu wedi'u cau allan o weithgareddau eu cyfoedion.

Nodwyd hefyd fod llawer o blant ag anghenion ychwanegol yn cael anhawster pontio rhwng lleoliadau addysg, yn enwedig os oes diffyg cefnogaeth gyson neu gyfathrebu rhwng gwasanaethau. Mae'r profiadau hyn yn dangos bod cynhwysiad yn golygu mwy na phresenoldeb yn yr ysgol neu'r ystafell ddosbarth, a'i fod hefyd yn golygu gallu cymryd rhan, cyfrannu a theimlo'n werthfawr ym mhob agwedd ar fywyd pob dydd.

Mae canfyddiadau Gobeithion i Gymru yn dangos yn glir bod angen gwneud mwy i sicrhau nid yn unig fod plant ag ADY yn ffynnu ond eu bod hefyd yn cael eu cynnwys yn y cyfleoedd dysgu, chwarae a chymunedol a fydd yn eu helpu i lwyddo ochr yn ochr â'u cyfoedion.

## 4.3.6 Bylchau a heriau

Gwnaed cynnydd sylweddol wrth hyrwyddo hawliau a llesiant plant yng Nghymru ond mae angen rhoi sylw i nifer o feysydd lle mae heriau'n parhau. Mae cefnogaeth gynaliadwy ar gyfer iechyd meddwl plant yn flaenoriaeth o hyd, ac er bod y model Dim Drws Anghywir yn cynnig fframwaith gwerthfawr, mae ei effaith hirdymor yn dibynnu ar adnoddau sicr a chyson. Mae bylchau yn parhau o ran cydnabod bod llesiant ac iechyd meddwl plant yn fater hawliau plant sylfaenol a gwelir yn aml fod canlyniadau academaidd yn dal i fod yn fwy o flaenoriaeth i ysgolion na llesiant cyfannol. Byddai pwyslais cyfartal ar y ddwy elfen hyn yn ddefnyddiol o ran gwreiddio dull gweithredu mwy cytbwys ac mae angen mynediad mwy cyson at gwnsela, cyswllt â CAMHS, a rhaglenni a arweinir gan gymheiriaid ar draws ysgolion.

Mae amrywiadau yn narpariaeth awdurdodau lleol yn dal i achosi anghydraddoldeb ar sail côd post mewn meysydd megis cludiant i'r ysgol, anghenion dysgu ychwanegol, ac ariannu dewisol. Mae angen mwy o dryloywder ac atebolrwydd, a dylai awdurdodau ddangos yn glir sut mae polisïau yn cefnogi hawliau plant. Gellid gwella gwaith monitro a rhoi adroddiadau er mwyn helpu i amlygu gwahaniaethau a sicrhau bod profiadau pob plentyn yn cael eu hystyried.

Mae grwpiau penodol, gan gynnwys plant a phobl ifanc LHDTC+, yn wynebu heriau penodol sydd heb gael eu harchwilio'n llawn eto. Er bod y nifer a nododd eu rhywioldeb yn arolwg Gobeithion i Gymru yn isel, roedd plant a phobl ifanc LHDTC+ yn anghymesur o debygol o sôn am gael eu bwlio. Fodd bynnag, oherwydd y niferoedd a'r data cyfyngedig, mae'n anodd deall eu hanghenion yn llawn a rhoi sylw iddynt.

Mae'r bylchau a'r anghysonderau hyn yn tanlinellu pwysigrwydd rôl y Comisiynydd o ran Goleuo'r Gwir. Drwy amlygu profiadau plant a phobl ifanc, herio anghydraddoldeb, a thynnu sylw at ddiffygion mewn gwasanaethau a pholisïau, gall y swyddfa sicrhau bod llunwyr penderfyniadau yn cael eu dal i gyfrif a bod lleisiau plant yn parhau i fod yn ganolog wrth lywio newid ystyrlon.

# 4.4 Heriwr

## 4.4.1 Trosolwg

Fel Heriwr, mae CPC wedi ymrwymo i herio a chefnogi eraill er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu gwireddu yng Nghymru. Er bod partneriaeth a chydweithio yn ganolog i'w gwaith, mae CPC yn codi llais ar ran plant a phobl ifanc a gofalwyr er mwyn herio darpariaeth wael gan wasanaethau, penderfyniadau gwan, a dewisiadau annigonol lle byddant yn effeithio'n negyddol ar fywydau plant. Gan eiriol yn ddiwyro dros blant a phobl ifanc, mae CPC yn dal deiliaid dyletswydd i gyfrif pan fydd safonau'n methu. Gyda phwerau statudol i adolygu ystod eang o wasanaethau cyhoeddus, mae gan CPC fandad i ddechrau sgyrsiau anodd ac ymateb i'r her o sicrhau gwella canlyniadau i blant, ac mae'n ddigon dewr i wneud hynny. Defnyddir dull gweithredu seiliedig ar dystiolaeth a lywir yn uniongyrchol gan leisiau plant a phobl ifanc i sicrhau bod camau gweithredu a gwaith cynyddu ymwybyddiaeth wedi'u seilio ar brofiadau bywyd a data cadarn. Yn y rôl yr Heriwr, nod CPC yw nodi ac amlygu ble mae angen newid a gweithio mewn modd adeiladol gyda phartneriaid hefyd i sicrhau gwelliannau cynaliadwy. Mae'r cydbwysedd hwn rhwng atebolrwydd a chydweithio yn hanfodol er mwyn sicrhau bod hawliau pob plentyn yng Nghymru yn cael eu cydnabod, eu parchu a'u gwireddu.




- Challenge child poverty progress
- Call for free public transport
- Call for reform in services for care leavers
- Explore online child safety
- Review child protection procedures
- Highlight unregulated accommodation
- Challenge mental health support provision
- Challenge efforts to tackle climate emergency

## 4.4.2 Canfyddiadau allweddol

**Parhau i alw am drafnidiaeth gyhoeddus ddi-dâl i blant er mwyn taclo tlodi plant a'r argyfwng hinsawdd**

Mae'r Comisiynydd wedi dadlau'n gyson o blaid darparu trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i blant er mwyn rhoi sylw i dlodi plant a'r argyfwng hinsawdd. Drwy'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Deisebau, i Dasglu Presenoldeb Llywodraeth Cymru, ac i'r Gynhadledd Bresenoldeb gyntaf a gynhaliwyd gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL), ynghyd â phapurau safbwynt ac ymatebion ffurfiol i adolygiad Llywodraeth Cymru o deithio gan ddysgwyr, mae'r mater hwn wedi aros ar frig yr agenda. O ganlyniad, cafodd y galwadau hyn eu cydnabod yn adolygiad Llywodraeth Cymru o deithio gan ddysgwyr, a chodwyd y mater hefyd mewn dadleuon yn y Senedd ochr yn ochr ag ymatebion beirniadol i'r adolygiad. Mae sylw yn y cyfryngau wedi cynyddu proffil ac arwyddocâd y gwaith hwn, a gwelwyd newidiadau polisi

gweladwy yn dechrau dod i'r amlwg, gan gynnwys cyflwyno tocynnau bws rhatach i bobl ifanc dan 21, ymgynghoriad cyhoeddus newydd ar ganllawiau gweithredu diwygiedig ar gyfer teithio gan ddysgwyr, a lansio cynllun treialu tocynnau teithio £1 ar 1 Medi 2025.

**Sicrhau bod y diwygio radical ar wasanaethau presennol i blant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal yn cyflawni newid go iawn**

Bu'r Comisiynydd wrthi'n lobïo Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y diwygiadau yr addawyd eu cyflwyno yn arwain at welliannau ystyrlon ym mywydau plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Mae ymgysylltiad â phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yng Nghastell-nedd Port Talbot, cyfraniadau i Rwydwaith Ewropeaidd yr Ombwdsmyn Plant, ac arddangosfa drochol Dy Lais yn y Senedd (Tachwedd 2024) wedi amlygu eu blaenoriaethau, sy'n cynnwys gwell cefnogaeth emosiynol ac ymarferol, cyfle i fod yn rhan o benderfyniadau gofal, ac urddas mewn bywyd pob dydd.

I adlewyrchu'r galwadau hyn, mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Gôd Ymarfer Rhan 6 ym mis Awst 2025 bellach yn pwysleisio'r angen i gynnwys plant yn uniongyrchol wrth gynllunio gofal. Mae partneriaid yn y sector, gan gynnwys y Gymdeithas Maethu, Perthynas a Mabwysiadu, yn ehangu'r hyfforddiant cymorth iechyd meddwl i ofalwyr maeth. Mabwysiadwyd Siarter Rhianta Corfforaethol ym mis Medi 2023, ochr yn ochr ag Addewid Rhianta Corfforaethol y Comisiynydd ei hun sy'n cryfhau atebolrwydd systemig ac yn sicrhau bod pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn helpu i lywio'r gwasanaethau a fwriedir ar eu cyfer.

**Archwilio pa mor ddiogel yw ein plant ar-lein**

Er mwyn cydnabod y risgiau cynyddol y mae plant yn eu hwynebu ar-lein, bu'r mater hwn yn flaenoriaeth i'r Comisiynydd yn nigwyddiadau'r llysgenhadon yn ystod hydref 2023, ac ym mis Chwefror 2025 canolbwyntiodd Mater y Mis ar gamwybodaeth, gan ofyn, "Beth sy'n wir a beth sy'n ffug ar-lein?" Rhannwyd y canfyddiadau yn uniongyrchol ag Ofcom, a llywio ymatebion i'w argymhellion i amddiffyn plant rhag niwed ar-lein. Sicrhawyd trwy'r gweithgareddau hyn fod lleisiau pobl ifanc yn llywio trafodaethau rheoleiddiol ar lefel genedlaethol

**Cwestiynu pa mor effeithiol yw llywodraethiant gweithdrefnau amddiffyn plant**

Aeth CPC ati i lywio'r ffordd y mae adolygiadau diogelu statudol yn gweithredu, gan sicrhau bod gwersi a ddysgir yn sgîl achosion difrifol yn arwain at amddiffyniad cryfach i blant. Yn 2023, ymatebodd y Comisiynydd i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch proses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR), gan alw am fwy o dryloywder, am gyhoeddi Cylch Gorchwyl yr Adolygiad Ymarfer Plant (CPR) ac am bennu dyletswyddau eglur o ran cyflwyno adroddiadau. Yn ogystal, ymgysylltodd CPC â rhanddeiliaid a'r cyhoedd trwy flogiau, llwyth achosion y tîm cynghori a thrwy gymryd rhan yn y Bwrdd Cynghori Gweinidogol ar SUSR.

Cyfrannodd y gwaith cynyddu ymwybyddiaeth parhaus hwn at ddiwygiadau sylweddol. Gwelwyd bod Canllawiau Statudol SUSR yn Hydref 2024 yn integreiddio systemau adolygu blaenorol, yn cryfhau'r meini prawf ar gyfer cynnal adolygiadau, yn egluro rôl y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ac yn sefydlu amserlenni a llwybrau uwch-gyfeirio clir ar gyfer Cynlluniau Gweithredu. Ym mis Ionawr 2025, cyhoeddwyd Cylch Gorchwyl yr Adolygiad Ymarfer Plant, gan ddarparu fframwaith safonol ar gyfer cynnal adolygiadau, gwella cysondeb a thryloywder wrth archwilio digwyddiadau diogelu sy'n ymwneud â phlant a nodi'r gwersi y mae angen eu dysgu. Mae'r newidiadau hyn yn dangos sut y gwnaeth dylanwad y Comisiynydd sicrhau bod mecanweithiau diogelu yn esblygu, gyda hawliau plant ac amddiffyn plant yn ganolog iddynt.

**Amlygu ble mae plant yn byw yng Nghymru**

Drwy waith ymchwil, ymgysylltu a chasglu tystiolaeth, mae'r Comisiynydd wedi rhoi sylw cenedlaethol i brofiadau plant ym maes tai a llety, gan gynnwys lleoliadau heb eu rheoleiddio a heb eu cofrestru. Ym mis Ionawr 2025, canolbwyntiodd arolwg Mater y Mis ar dai, gan gynnig cipolwg gwerthfawr ar safbwyntiau pobl ifanc, a bwydo'r adroddiad sbotolau, Effaith tai a digartrefedd ar blant a phobl ifanc yng Nghymru a gyhoeddwyd yn 2025. Mae'r adroddiad hwn eisoes wedi derbyn tipyn o sylw yn y cyfryngau ac wedi cael ei ddyfynnu mewn dadleuon, gydag aelodau'r Senedd yn mynegi pryderon am y risg y bydd lleoliadau atodol yn gwthio plant i mewn i lety anniogel. Yn ei hymateb cryno i bapur gwyn Yr Hawl i Dai Digonol, cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at geisiadau'r Comisiynydd, yn enwedig o ran ymgorffori lleisiau plant mewn

deddfwriaeth yn y dyfodol. Nododd y llywodraeth fwlch yn y dystiolaeth yng nghyswllt phlant dibynnol o dan un ar bymtheg oed sy'n profi digartrefedd ac ers hynny mae wedi dechrau gwaith ymchwil cyfranogol methodolegol â phlant dan 16 oed ar faterion tai, o ganlyniad uniongyrchol i'r gwaith hwn.

**Herio'r diffyg cefnogaeth iechyd meddwl briodol wrth baru anghenion plant a phobl ifanc yng Nghymru**

Mae'r Comisiynydd Plant wedi herio'n gyson y diffyg cefnogaeth iechyd meddwl briodol i blant a phobl ifanc yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar ddiffyg cyfatebiaeth rhwng yr angen a'r ddarpariaeth. Rhan allweddol o'r gwaith hwn oedd cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno fframwaith NYTH/NEST, sy'n hyrwyddo dull cydlynus, seiliedig ar hawliau o ddelio ag iechyd meddwl a llesiant meddyliol. Yn Chwefror 2024, lansiwyd cwrs hyfforddi newydd ynghylch NYTH/NEST a hawliau plant, a ddatblygwyd ar y cyd â phobl ifanc, gyda 147 o gyfranogwyr wedi'u cofrestru erbyn Hydref 2024.

Yn ogystal, roedd yr argymhellion yn Adroddiad Blynyddol 2023–24 y Comisiynydd hefyd wedi dylanwadu ar benderfyniad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi cynllun cyflawni penodol ar gyfer plant a phobl ifanc yn Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol 2025–28, gan sicrhau bod anghenion pobl ifanc yn derbyn ymatebion sydd wedi'u targedu'n well.

**Herio ymdrechion y llywodraeth i daclo'r argyfwng hinsawdd**


Mae'r Comisiynydd wedi sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn flaenllaw wrth drafod newid hinsawdd, gan sefydlu is-grŵp Panel Cynghori Pobl Ifanc ar newid hinsawdd yn 2023 a rhoi nifer o gyfleoedd i bobl ifanc gyflwyno safbwyntiau. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd cyfraniadau i ddigwyddiad Her Hinsawdd Cymru yn y Senedd ym mis Mehefin 2024, sesiwn "Dy Lais, Dy Ddyfodol" yn y gynhadledd Addasu i Newid Hinsawdd ym mis Tachwedd 2024, ac arolwg Mater y Mis ynghylch helpu'r amgylchedd. Bu'r cynlluniau hyn yn fodd i blant rannu eu pryderon a'u syniadau yn uniongyrchol â llunwyr polisi a hefyd i gysylltu newid hinsawdd â materion mwy cyffredinol megis tlodi plant a thrafnidiaeth. Drwy ei gwaith cynyddu ymwybyddiaeth, mae'r Comisiynydd wedi cysylltu gweithredu ar newid hinsawdd â pholisïau gweladwy, gan gynnwys pwysigrwydd trafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy a hygyrch i bobl ifanc, a dangos y cysylltiad rhwng blaenoriaethau amgylcheddol plant â hawliau a chyfleoedd pob dydd.

Mae'r astudiaethau achos yn yr adran hon yn enghreifftiau o sut mae rôl y Comisiynydd fel Heriwr yn adeiladu ar y seiliau cadarn a osodwyd gan y Comisiynwyr blaenorol ond hefyd yn meithrin twf newydd sy'n cynnig budd uniongyrchol i blant a theuluoedd. Mae Dileu Elw mewn Gofal Plant yn adlewyrchu'r diwygiadau strwythurol mawr sydd wedi gwreiddio dros amser, wedi'u llywio gan waith cynharach a'u meithrin trwy waith cynyddu ymwybyddiaeth parhaus. Mae Hyrwyddo Trafnidiaeth Gyhoeddus Am Ddim i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru yn dangos y newid amlwg sy'n dod i'r golwg, lle mae herio parhaus wedi arwain at newid polisi pendant a chymorth ariannol ystyrlon i deuluoedd ar draws Cymru, er bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod pob plentyn yn gallu elwa ohono. Gyda'i gilydd, mae'r enghreifftiau hyn yn amlygu'r ffordd y mae herio parhaus yn sicrhau bod diwygiadau systemig yn gwreiddio, tra'n cyflwyno gwelliannau ymarferol y gall plant a phobl ifanc eu profi yn eu bywydau pob dydd.

## 4.4.3 Astudiaeth achos: **Dileu Elw mewn Gofal Plant**

Yng Nghynllun Strategol 2023-2026, un o flaenoriaethau'r Comisiynydd oedd sicrhau y byddai adduned Llywodraeth Cymru i "gyflawni diwygio radical ar wasanaethau presennol i blant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal" yn arwain at welliannau ystyrlon ym mywydau plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod strategol hwn, mae'r Comisiynydd wedi cymryd nifer o gamau ar hyd y trywydd hwn, gan gynnwys cynyddu proffil lleisiau plant trwy arddangosfa Dy Lais yn y Senedd. Mae'n bwysig nodi bod y gwaith hwn yn adlewyrchu gwaddol y dylanwad a feithrinwyd gan y Comisiynwyr blaenorol. Mae'r rhaglen bresennol yn adeiladu ar dystiolaeth, gwaith cynyddu ymwybyddiaeth, ac argymhellion a ddatblygwyd dros flynyddoedd lawer, ac yn dangos bod effaith wirioneddol yn y maes hwn yn dibynnu'n aml ar bwysau ac ymroddiad parhaus. Mae newid systemig er budd grwpiau agored i niwed, megis plant mewn gofal, wedi dod i'r amlwg fesul tipyn, wrth i ymwybyddiaeth gynyddu a chryfhau, a dod yn rhan o ddiwygiadau'r llywodraeth yn yr hirdymor.

Yn 2019, galwodd Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd am leihau a dileu elw mewn gwasanaethau gofal plant. Mae'r Comisiynydd wedi parhau i eiriol ar ran y plant hyn sy'n agored i niwed dros amser. Yn 2021, galwodd Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi map trywydd eglur ar gyfer dileu elw yn raddol o ofal plant sy'n derbyn gofal , a hynny erbyn Ebrill 2022. Seiliwyd yr argymhelliad hwn ar dystiolaeth y plant eu hunain o gael eu hanfon ymhell o'u cartref i leoliadau oedd yn cael eu rhedeg gan ddarparwyr er-elw, a phryderon mwy cyffredinol am sefydlogrwydd ac ansawdd y gofal a ddarperid.




*Ffigur 6 Amserlen diwygio polisi ar gyfer gofal plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru*

Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad y Comisiynydd yn ffurfiol yn 2021. Dros y blynyddoedd dilynol, aeth Llywodraeth Cymru ati i gomisiynu adolygiadau o'r sylfaen dystiolaeth, ymgysylltu â darparwyr a gweithwyr proffesiynol, ac ymgynghori ar weithredu ymrwymiadau Llywodraeth Cymru.

Daliodd y Comisiynydd ati hefyd i gynyddu ymwybyddiaeth o'r mater hwn mewn gohebiaeth â'r Senedd ac mewn cyfarfodydd â gweinidogion cyn dod, yn ddiweddarach, yn aelod o Fwrdd Rhaglen Dileu Elw o Ofal Plant (2023-2025) Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod lleisiau a hawliau plant yn ganolog o hyd wrth i'r dewisiadau ddatblygu.

Arweiniodd y camau hyn at Ddeddf Iechyd a Gofal (Cymru), sy'n gosod cyfyngiadau cyfreithiol ar wneud elw mewn gofal cymdeithasol plant. Cyflwynodd y ddeddfwriaeth gyfnod pontio graddol: o Ebrill 2026, ni chaiff gwasanaethau er-elw newydd eu cofrestru; o 2027, ni chaiff darparwyr presennol ehangu; ac erbyn 2030, bydd lleoliadau newydd â darparwyr er-elw yn dod i ben, ac eithrio o dan amgylchiadau â rheolaethau cadarn.

Roedd llawer o leisiau wedi cyfrannu at yr alwad i ddileu elw o ofal cymdeithasol plant, ond bu gwaith cynyddu ymwybyddiaeth gan CPC yn allweddol o ran cyflawni'r deilliannau hyn. Mewn sesiwn cyflwyno tystiolaeth ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol, dywedodd y Prif Weinidog, Mark Drakeford AS, yn glir bod gwaith y Comisiynydd yn sbardun allweddol i'r ddeddfwriaeth. Dywedodd: "Yr hyn a ysgogodd y polisi hwn oedd adroddiad gan y Comisiynydd Plant, yr Athro Sally Holland, lle gofynnodd yn benodol beth oedd barn plant." Mae'r gydnabyddiaeth hon yn amlygu bod ymyriad cynnar y cyn-Gomisiynydd wedi gosod sylfaen ar gyfer newid. Mae'n dangos hefyd faint o amser y mae'n cymryd yn aml i ddiwygio polisi: cymerodd bron i ddegawd o waith cynyddu ymwybyddiaeth, trafod a phroses ddeddfwriaethol cyn bod argymhelliad cychwynnol yn adroddiad y Comisiynydd yn dod yn gyfraith.

## 4.4.4 Astudiaeth achos: **Sefyll dros Drafnidiaeth Gyhoeddus Am Ddim i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru**

Mae CPC wedi galw'n gyson am drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i blant a phobl ifanc, gan ddadlau bod hynny'n hanfodol er mwyn lleihau tlodi plant a thaclo'r argyfwng hinsawdd. I deuluoedd sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus, mae costau teithio yn faich sylweddol. Gyda bod plant yng Nghymru yn mynychu'r ysgol am 38 wythnos bob blwyddyn, mae costau teithio dyddiol yn cronni'n gyflym, gan gyfyngu ar fynediad at addysg, hyfforddiant, gwaith, a chyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol.


Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu'r mater hwn yn uchel ar agenda'r Comisiynydd, gan roi sylw uniongyrchol i'r pryderon a fynegwyd gan rieni, gofalwyr a gweithwyr yn arolwg Gobeithion i Gymru ynghylch y rhwystrau ariannol ac ymarferol sy'n wynebu plant wrth iddynt geisio cael mynediad at gyfleoedd ymgysylltu a datblygu, gan gynnwys addysg, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae mentrau fel y cynllun tocyn bws £1 yn ymateb yn uniongyrchol i'r pryderon hyn trwy leihau costau trafnidiaeth, helpu i ddileu rhwystrau ariannol allweddol, a galluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad tecach i weithgareddau, adnoddau a chyfleoedd dysgu ar draws Cymru.

Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ar ran plant a phobl ifanc a theuluoedd, mae'r Comisiynydd wedi cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Deisebau, cyfrannu i Dasglu Presenoldeb Llywodraeth Cymru a Chynhadledd Bresenoldeb gyntaf yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, ac ymateb yn ffurfiol i adolygiad y Llywodraeth o deithio gan ddysgwyr. Cryfhawyd y neges hon trwy bapurau safbwynt, ymgysylltiad â'r cyfryngau, a chyfathrebu â'r cyhoedd, gan sicrhau lle amlwg i'r angen am deithio fforddiadwy a hygyrch yn llygad y cyhoedd a gwleidyddion.

Roedd yr Uwchgynhadledd Teithio gan Ddysgwyr a gynhaliwyd ym mis Mai 2025 yn llwyfan pellach ar gyfer dylanwad y Comisiynydd. Yn ystod y digwyddiad cenedlaethol hwn a gynullwyd gan Weinidogion Cymru, cyflwynodd dystiolaeth gan blant a phobl ifanc a theuluoedd i ddangos bod costau trafnidiaeth yn faich ychwanegol ar gyllidebau aelwydydd sydd eisoes yn dynn, ac yn tanseilio presenoldeb yn yr ysgol. Tynnodd sylw at y ddadl dros ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bob plentyn a pherson ifanc, gan ei gyflwyno fel hawl, fel ymyriad polisi ac fel gweithred ar newid hinsawdd. Bu presenoldeb y Comisiynydd o gymorth i sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc, yn enwedig y rheiny o deuluoedd incwm isel a'r rhai ag anghenion ychwanegol yn ganolog i'r drafodaeth. Drwy ei hymyrraeth, ategodd bryderon am annhegwch rhwng awdurdodau lleol, diffyg darpariaeth gyson, a'r ffordd y mae trafnidiaeth anfforddiadwy yn tanseilio cynlluniau mwy cyffredinol y llywodraeth ym maes presenoldeb.

Adlewyrchwyd y dadleuon hyn yn ymateb Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori (ym Mehefin 2025) ar Ganllawiau Gweithredol ynghylch Teithio gan Ddysgwyr diwygiedig, sy'n cydnabod yr achos dros newid, ac adleisiwyd galwadau y bu'r Comisiynydd yn eu hyrwyddo ers tro byd mewn dadleuon yn y Senedd. Yn ogystal, bu'r Uwchgynhadledd yn fan cychwyn ar gyfer lansio newidiadau polisi wrth i'r Llywodraeth gyhoeddi cynllun treialu tocynnau unffordd am £1 a thocynnau dydd diderfyn am £3 i bobl ifanc 16–21 oed, gan ddechrau ym mis Medi 2025, gydag estyniad i gwmpasu plant a phobl ifanc 5–15 oed o fis Tachwedd 2025 ymlaen. Yn sylfaen i hynny, ymrwymwyd £15 miliwn yn y gyllideb dros ddwy flynedd ar gyfer pobl ifanc 16–21 oed ynghyd â £7 miliwn pellach ar gyfer plant iau.

Mae'r arbedion i deuluoedd yn sylweddol. Fel arall, byddai plentyn sy'n teithio i'r ysgol ac yn ôl ar fws, bum niwrnod yr wythnos, yn talu tua £950–£1140 y flwyddyn (amcangyfrif yn seiliedig ar gostau teithio o £2.50-£3.00 fesul siwrne bws). O dan y cynllun £1 mae hynny'n gostwng i £380, gan arbed rhwng £570 a £760 y plentyn, y flwyddyn. Dros gannoedd o filoedd o blant, mae hyn yn gyfystyr â rhyddhau degau o filiynau o bunnoedd o incwm gwario i gyllidebau aelwydydd ar draws Cymru.




*Ffigur 7 Amcangyfrif o'r Arbedion Blynyddol i Deuluoedd o dan y Cynllun Teithio i'r Ysgol am £1 yng Nghymru.*

Er bod y datblygiadau hyn yn arwydd o gynnydd gwirioneddol, mae'r Comisiynydd wedi datgan yn glir nad ydynt yn mynd yn ddigon pell. Ar gost o £380 y flwyddyn, bydd llawer o deuluoedd yn dal i fethu fforddio teithiau bws, ac mae pobl ifanc dros un ar hugain oed yn dal i wynebu costau uchel. I'r Comisiynydd, mae angen meddwl am drafnidiaeth gyhoeddus fel lles cyhoeddus: un sy'n ganolog i hawliau plant, i fynediad cyfartal ac i ymrwymiad Cymru i daclo'r argyfwng hinsawdd.

Mae cyflwyno tocynnau teithio £1 yn gam sylweddol ymlaen felly, a gyflawnwyd yn rhannol trwy waith cynyddu ymwybyddiaeth parhaus gan y Comisiynydd, a'r momentwm a ddaeth yn sgîl yr Uwchgynhadledd Teithio gan Ddysgwyr. Ond mae'r nod o sicrhau trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bob plentyn a pherson ifanc yn parhau ac mae'n fesur a fyddai'n cynnig manteision trawsnewidiol i deuluoedd, yn gwella presenoldeb a chynhwysiad, ac yn cefnogi dyfodol mwy gwyrdd i Gymru.

## 4.4.5 Ymateb i arolwg Gobeithion i Gymru: Heriwr

Amlygodd ymgynghoriad Gobeithion i Gymru nifer o'r pryderon sydd wedi llywio gwaith y Comisiynydd fel Heriwr, sef defnyddio tystiolaeth i ddal y llywodraeth a chyrff cyhoeddus i gyfrif a sbarduno newid pan na chaiff hawliau plant eu gwireddu. Mae'r materion craidd a amlygwyd yn ymgynghoriad Gobeithion i Gymru ac a wreiddiwyd yn y cynllun strategol o dan thema'r Heriwr yn cynnwys mynediad at drafnidiaeth a fforddiadwyedd trafnidiaeth, teimlo'n anniogel ar-lein, a phryderon plant a phobl ifanc am newid hinsawdd. Yn ymgynghoriad Gobeithion i Gymru, soniodd pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal hefyd nad oeddent yn teimlo'n ddiogel bob amser nac yn cael gwrandawiad a dywedon nhw eu bod am gael perthnasoedd mwy cyson ag oedolion y gallent ymddiried ynddynt. Nododd gweithwyr proffesiynol fod ansefydlogrwydd a phontio gwael yn faterion allweddol. Mae gwaith CPC â phlant sydd â phrofiad o ofal wedi gwneud eu lleisiau yn ganolog i waith cyfathrebu.

Yn arolwg Gobeithion i Gymru, dywedodd ymatebwyr ifanc, mewn ardaloedd gwledig yn enwedig, fod costau, dibynadwyedd ac argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus yn gyfyngiadau allweddol oedd yn lleihau

mynediad at addysg, darpariaeth chwarae a chyfleoedd cymdeithasu. Adleisiwyd hynny gan y gweithwyr proffesiynol ac un o'u hawgrymiadau mwyaf cyffredin ar gyfer gwella bywyd oedd gwella trafnidiaeth fforddiadwy i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Tynnodd nifer o rieni a gofalwyr sylw hefyd at bwysigrwydd darparu mwy o leoedd, gweithgareddau a chlybiau hygyrch am ddim i blant a phobl ifanc, er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn gallu cymryd rhan mewn profiadau cyfoethogi, beth bynnag eu cefndir neu eu lleoliad. Adleisiwyd hynny yn ymateb y gweithwyr proffesiynol i ymgynghoriad Gobeithion i Gymru, a oedd yn argymell ehangu cefnogaeth yn y gymuned, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, er mwyn creu cyfleoedd teg ar gyfer ymgysylltu, dysgu a datblygiad cymdeithasol.

Er i'r Comisiynydd wneud cynnydd nodedig o ran gwella mynediad at drafnidiaeth, mae angen gweithredu pellach i ddelio â'r pryderon ehangach hyn a godwyd yn ystod ymgynghoriad Gobeithion i Gymru, er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau fforddiadwy, hygyrch ble bynnag y byddant yn byw. Mae'n ymddangos hefyd mai prin yw'r sefydliadau eraill sy'n rhoi sylw i'r maes hwn ar hyn o bryd. Er bod sefydliadau eraill, megis Plant yng Nghymru a Chwaraeon Cymru wedi galw yn y gorffennol am ddarparu gweithgareddau hygyrch am ddim i blant a phobl ifanc yng Nghymru, ni fuont yn eiriol dros hynny yn ystod 2023-2025. Mae adroddiad Fy Niwrnod Ysgol (2023) gan Senedd Ieuenctid Cymru yn cyfeirio at gynllun Treialu Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol Llywodraeth Cymru (a ddaeth i ben yn 2021/22, gydag adroddiad gwerthuso yn cael ei gyhoeddi yn 2023) ac yn galw am fynediad am ddim i weithgareddau cyfoethogi yn ystod y diwrnod ysgol arferol, heb ymestyn yr oriau. Ymddengys mai ychydig o sefydliadau sydd wedi codi mater ehangu'r cynllun Treialu Sesiynau Cyfoethogi fel llwyfan eiriolaeth pwysig, sy'n awgrymu bod cyfle o bosib i swyddfa'r Comisiynydd neu'i phartneriaid arwain y mater hwn yng Nghymru.

Roedd diogelwch ar-lein a llesiant digidol yn bryderon a godwyd yn aml gan blant ac oedolion yn arolwg Gobeithion i Gymru. Soniodd plant a phobl ifanc am ddod ar draws cynnwys niweidiol, bwlio, a theimlo'n anniogel neu o dan bwysau ar-lein, a mynegwyd dymuniad i deimlo'n ddiogel ar-lein a chael gwell gwybodaeth i amddiffyn eu hunain. Mae CPC wedi cysylltu ag Ofcom er mwyn rhoi sylw i'r materion hyn trwy.

Roedd newid hinsawdd yn thema bendant gan blant hŷn a phobl ifanc yn ymgynghoriad Gobeithion i Gymru, a chysylltwyd hynny â gorbryder, canfyddiad o annhegwch, a diffyg llais mewn penderfyniadau gwleidyddol. Mae CPC wedi tynnu sylw at bryderon plant a phobl ifanc trwy ei hymgysylltiad ag ysgolion, seneddau ieuenctid, a llunwyr polisi, gan bwysleisio bod gweithredu dros yr amgylchedd hefyd yn fater hawliau plant, sy'n ymwneud â'r hawl i amgylchedd iach ac i gyfrannu at lywio'r dyfodol. Mae mwy o le i'r Comisiynydd ehangu'i gwaith fel Heriwr yn y maes hwn, er mwyn rhoi blaenoriaeth i gynaliadwyedd ac addysg ynghylch yr hinsawdd a sicrhau bod lleisiau plant yn ganolog i bolisïau amgylcheddol cenedlaethol, tra'n cydnabod bod y materion hyn yn cael sylw da gan sefydliadau eraill yng Nghymru.

Er enghraifft,

- Llysgenhadon Hinsawdd Cymru (YCA) – o dan arweiniad ieuenctid yn unig (13-25). Mae YCA, a gyhoeddodd Maniffesto ar gyfer yr Hinsawdd a Byd Natur yng Nghymru, yn trefnu cwestiynau ac ymgyrchoedd polisi ac yn cyfarfod â llunwyr penderfyniadau. Wedi'u cefnogi gan Maint Cymru/Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru/Climate Cymru
- Teach the Future Wales – ymgyrch dan arweiniad ieuenctid (rhan o SOS-UK) sy'n pwyso am ddiwygio addysg ynghylch newid hinsawdd yng Nghymru (y cwricwlwm, hyfforddi athrawon, dadgarboneiddio ystadau).
- Cyfeillion y Ddaear Cymru / Cyfeillion y Ddaear Ifanc – yn cefnogi actifyddion cyfiawnder hinsawdd ifanc â hyfforddiant, cyllid a llwyfannau er mwyn dylanwadu ar drafodaethau polisi.

Fodd bynnag, datgelodd gwaith ymchwil gan Brifysgol Abertawe a Cadwch Gymru'n Daclus fod plant ag ADY a phlant mewn darpariaeth amgen yng Nghymru ar ei hôl hi o ran addysg cynaliadwyedd a'r hinsawdd. Er gwaetha'r cyfranogiad cyffredinol uchel yn y Rhaglen Eco-Ysgolion yng Nghymru (mwy na 90 % o ysgolion),

canfu'r astudiaeth fod diffyg adnoddau pwrpasol, hyfforddiant staff a rhwydweithiau cymheiriaid cyfyngedig, ac addysgwyr sydd wedi'u hynysu mewn lleoliadau ADY. Mae'r bwlch hwn yn golygu bod perygl y caiff y plant hyn eu cau allan o addysg ynghylch gweithredu dros yr hinsawdd, hawliau cyfranogi a chyfraniadau ystyrlon sy'n llywio penderfyniadau yn y dyfodol. I leihau'r perygl hwn, mae gofyn atgyfnerthu'r ymrwymiad i arfer polisïau cynhwysol a dyrannu adnoddau pwrpasol i leoliadau ADY er mwyn sicrhau bod pob plentyn, beth bynnag fo'i anghenion neu ei gyd-destun dysgu, yn cael y modd a'r grym i gyfranogi.

## 4.4.6 Bylchau a heriau

Mae gallu CPC i weithredu fel Heriwr yn dal i fod yn allweddol, yn enwedig mewn meysydd lle na chafodd ymrwymiadau'r llywodraeth eu trosi'n dargedau penodol a mesuradwy. Mae Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru yn enghraifft o hynny. Heb feincnodau clir, mae'n bwysig bod CPC yn parhau i bwyso am atebolrwydd ac yn monitro'r hyn a gyflawnir o gymharu â'r addewidion.

Un maes y mae angen canolbwyntio arno ydy "cost y diwrnod ysgol, lle mae teuluoedd yn dal i wynebu rhwystrau sylweddol. Byddai canolbwyntio ar wisgoedd ysgol, prydau bwyd, teithiau a mynediad digidol fforddiadwy yn gamau uniongyrchol i gefnogi hawliau plant i dderbyn addysg a lleihau anghydraddoldeb. Yn ogystal, mae'n werth hyrwyddo cynlluniau sydd eisoes yn darparu canlyniadau cadarnhaol, megis y rhai a gefnogwyd trwy'r Grant Cefnogi Ieuenctid (£11.4m yn 2025–26), sy'n gysylltiedig â gwella presenoldeb yn yr ysgol. Yn yr un modd, mae cynlluniau megis y Bocs Bwyd Mawr a Bwyd a Hwyl yn cynnig cymorth ymarferol a allai gael ei hyrwyddo ymhellach. Ar ben hynny, byddai monitro ac adrodd ar effaith y cynlluniau penodol a amlygwyd yn y strategaeth tlodi plant, megis y rhaglen i dreialu Incwm Sylfaenol ar gyfer Ymadawyr Gofal yn helpu i sicrhau bod ymyriadau effeithiol yn cael eu nodi a'u darparu ar raddfa.

Mae cludiant ysgol yn faes pwysig arall lle mae rôl y Comisiynydd fel Heriwr yn arbennig o allweddol. Mae anghysondeb parhaus, megis trothwyon cymhwystra, annhegwch mewn ardaloedd gwledig, a gwneud penderfyniadau dewisol, yn parhau i greu loteri côd post i ddysgwyr ifanc. Mae CPC wedi dadlau yn gyson o blaid teithio am ddim gan ddysgwyr, ac mae'n bosib y gallai ystyried dulliau gweithredu amgen, megis:

- Pennu cost y dewisiadau, megis cymhorthdal pas bws o gymharu â darpariaeth bws ysgol benodedig.
- Monitro darpariaethau lleol a newidiadau i Bolisïau Cludiant i'r Ysgol a gweithio gyda rhanddeiliaid i dynnu sylw at y cysylltiad rhwng teithio gan ddysgwyr a hawliau plant. Er enghraifft, yn ardal Rhondda Cynon Taf, sef yr awdurdod lleol â'r cyfraddau absenoldeb ail uchaf yng Nghymru, mae disgyblion sy'n byw ddwy neu dair milltir o'u hysgol uwchradd wedi colli darpariaeth bws am ddim yn dilyn toriadau i'r gyllideb yn 2025. Er hynny, nid oedd Adroddiad ar Bresenoldeb a Rhwystrau Rhag Ymgysylltu a gyflwynwyd i Bwyllgor Craffu ar Addysg a Chynhwysiad Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf yn 2024 yn sôn am deithio fel ffactor sy'n effeithio ar bresenoldeb, sy'n awgrymu bod bwlch pwysig yn y dadansoddiad. Yn yr un modd, mae ymgynghoriad cyfredol yn 2025 ynghylch gostwng trafnidiaeth ysgol i'r lleiafswm statudol yn ardal Caerffili yn tynnu sylw at bod berygl parhaus darpariaeth annheg.

Her arall yw monitro effaith argymhellion CPC ei hun, sy'n cael eu crynhoi mewn cofrestr (er nad yw honno'n cynnwys galwadau yn sgîl ymgyngoriadau a safbwyntiau polisi) ond heb gael eu monitro mewn modd systematig a thrylwyr dros amser. O ystyried graddfa ac ystod yr argymhellion a gyhoeddir mewn adroddiadau sbotolau, safbwyntiau polisi, ac ymatebion i ymgyngoriadau, byddai sefydlu dull systematig o fonitro cynnydd yn cryfhau atebolrwydd ac yn rhoi gwedd gliriach ar arfer dylanwad a'i gyfraniad i newid ystyrlon dros amser.

Mae'r enghreifftiau hyn yn arwyddion o bwysigrwydd rôl yr Heriwr o ran sicrhau bod polisïau yn lleihau tlodi a rhwystrau i addysg mewn modd ystyrlon. Drwy dynnu sylw at fylchau, darparu tystiolaeth o effeithiau, a thynnu sylw at gynlluniau llwyddiannus, gall CPC barhau i bwyso ar lunwyr penderfyniadau ac eiriol o blaid dulliau sy'n cynnal hawliau plant mewn ymarfer.

# 05 GWERSI AR GYFER Y DYFODOL

Wrth i ganlyniadau gwaith y Comisiynydd barhau i aeddfedu, mae'r cyfnod strategol diwethaf yn cynnig gwersi gwerthfawr o ran sut mae trawsnewid yn gwreiddio ac yn ffynnu yn y sector hawliau plant yng Nghymru.

Mae'r canlyniadau a gyflawnwyd ar draws y pedwar ymrwymiad yn dangos bod newid gwirioneddol a pharhaus yn deillio nid o ymyriadau sengl, ond o waith cyson i feithrin perthnasoedd, casglu tystiolaeth, cyfathrebu, cynyddu ymwybyddiaeth ac ymddiriedaeth. O dynnu'r llinynnau amrywiol a phwerus yng ngwaith y Comisiynydd ynghyd, mae pum cipolwg trosfwaol yn amlygu sut mae meithrin newid, a sut y gall y cipolygon hyn lywio'r cylch twf nesaf.

**Mae newid yn dibynnu ar fwy na chamau gweithredu ynysig.**

Ym mhob maes gwaith, o dlodi plant ac addysg i iechyd meddwl a diogelu, mae cynnydd wedi dibynnu ar gydadwaith rhwng llywodraethu cryf, cynyddu ymwybyddiaeth parhaus, perthnasoedd a rhwydweithiau rhanddeiliaid, a chyfranogiad dilys plant a phobl ifanc.

**Mae hyn yn dangos**: Bod newid yn ein system yn tyfu pan fydd perthnasoedd, tystiolaeth a chyfranogiad yn ategu'r naill a'r llall, pan feithrinir y system gyfan yn hytrach nag ynysu elfennau.

**Mae gwireddu hawliau plant yn golygu cyrraedd pob plentyn, nid y rhan fwyaf o blant.**

Mae gwaith CPC wedi cryfhau ymwybyddiaeth o hawliau plant ar draws Cymru, ond mae anghydraddoldeb parhaus o ran mynediad a chanlyniadau yn ein hatgoffa bod rhai plant ar y cyrion o hyd. Er mwyn gwireddu hawliau pob plentyn a pherson ifanc, rhaid i'r cynnydd estyn ar draws ffiniau codau post, ieithoedd, hunaniaeth, a phrofiadau. Er mwyn gwreiddio hawliau, rhaid ymdrin ag annhegwch strwythurol a sicrhau bod pob grŵp yn cael eu gweld a'u gwasanaethu.

**Mae hyn yn dangos:** Bod newid yn ein system yn ddilys pan fydd yn deg yn unig; pan fydd pob plentyn, ym mhob rhan o Gymru, yn gallu gweld a theimlo eu hawliau ar waith.

**Mae amlygu lleisiau plant yn creu momentwm ac yn dilysu diwygiadau.**

O weld Mater y Mis yn llywio dadleuon yn y Senedd i'r bobl ifanc sy'n dylanwadu ar ganllawiau statudol ynghylch tai, hiliaeth, a'r newid hinsawdd, mae gwaith CPC yn dangos bod rhoi profiadau bywyd plant a phobl ifanc yn y canol yn rhoi awdurdod moesol a dylanwad gwleidyddol i'r gwaith cynyddu ymwybyddiaeth a chyfathrebu. Pan fydd safbwyntiau plant yn llywio dyluniad, cyflwyniad a gwerthusiad polisi, mae penderfyniadau'n dod yn fwy dilys ac yn taro tant.

**Mae hyn yn dangos**: Bod newid parhaus yn digwydd nid yn unig pan ymgynghorir â phlant, ond pan fyddant yn cyfranogi mewn modd ystyrlon ac yn cael cydnabyddiaeth am greu datrysiadau ar y cyd.

### Mae cydweithio yn lluosogi effaith ac yn creu cydlyniaeth ar draws systemau.

Mae partneriaethau â mwy na 150 o sefydliadau, mentrau ar y cyd megis yr Uwchgynhadledd Tlodi Plant, a lledu egwyddor Dim Drws Anghywir ar draws sectorau niferus yn dangos sut mae rhannu fframweithiau ac ymdrechion cydweithredol yn gallu cyflymu cynnydd a gwreiddio canlyniadau. Pan fydd syniadau ac arferion yn mynd y tu hwnt i sectorau, adeiladir momentwm sy'n cyfrannu at drawsnewid cydlynus, gwydn a systemig.

**Mae hyn yn dangos:** Bod newid systemig yn fwyaf pwerus pan gyfnewidir syniadau a phan fydd rhanddeiliaid yn rhannu gwerthoedd, iaith, a fframweithiau sy'n pontio sectorau, lefelau, a disgyblaethau i greu effaith unedig sy'n para.

### Gall herio parhaus a dyfalbarhad droi gwaith cynyddu ymwybyddiaeth yn ddiwygiadau annatod.

Mae'r hyn a gyflawnwyd ym maes dileu elw o ofal plant, diwygio teithio gan ddysgwyr, a chryfhau camau diogelu yn dangos bod diwygio systemig yn aml yn gofyn am ymrwymiad hirdymor a her adeiladol. Meithrinir cynnydd trwy ddyfalbarhad, partneriaeth a defnydd strategol o dystiolaeth dros amser.

**Mae hyn yn dangos:** Bod newid yn cymryd amser ac mae dyfalbarhau yn bwysig. Ni ddaw trawsnewid trwy un ymyriad, ond yn hytrach trwy waith parhaus i feithrin, ailadrodd a dal systemau i gyfrif.

Gyda'i gilydd, mae'r cipolygon hyn dangos bod newid ystyrlon yn cael ei feithrin yn barhaus. Mae'n datblygu orau mewn cyd-destun cynhwysol, cydweithredol, dyfal lle mae hawliau'n fyw, mae lleisiau'n cael eu clywed ac mae'r system ei hun yn esblygu.

# 06 DIWEDDGLO

## Dros y cyfnod strategol diwethaf, mae CPC a'i thîm wedi cymryd camau mesuradwy ymlaen o ran hyrwyddo hawliau a llesiant plant a phobl ifanc ar draws Cymru.

Mae gwaith y Comisiynydd, a lywiwyd gan bedwar ymrwymiad strategol, sef Yma i Bob Plentyn, Arwr Hawliau, Goleuo'r Gwir, a Heriwr, wedi meithrin newid mewn modd systematig, o gynyddu ymwybyddiaeth o faterion sy'n dod i'r amlwg, i feithrin arferion, partneriaethau a systemau sy'n cael effaith systemig barhaol. Ymdrechion cysylltiedig yw'r rhain: mae systemau sylfaenol a strwythurau llywodraethu, adnoddau, rhwydweithiau a gwaith cynyddu ymwybyddiaeth, ac ymgysylltu uniongyrchol â phlant, yn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn dal i lywio canlyniadau. Ar draws ysgolion, gwasanaethau cyhoeddus a thirweddau polisi, mae gwaith CPC wedi arwain at effaith weladwy i blant a theuluoedd unigol a chynnal newid systemig, gan ddangos pwysigrwydd dull gweithredu cyfannol sy'n canolbwyntio ar y plentyn wrth gynyddu ymwybyddiaeth a gwireddu hawliau.

Bu gweledigaeth ac ymrwymiadau'r Comisiynydd yn sylfaen gref ar gyfer cynnydd ar hyd y cyfnod strategol hwn. Drwy integreiddio'r blaenoriaethau a nodwyd gan blant a phobl ifanc mewn modd systematig, mae'r swyddfa wedi cryfhau'r cysylltiadau rhwng eu profiadau bywyd a gwaith dylanwadu ar bolisi a gweithredu ymarferol. Drwy ymgysylltu hygyrch, addysg ynghylch hawliau, cynyddu ymwybyddiaeth a gwaith herio, mae CPC wedi meithrin system ymatebol a gwydn ac wedi amlygu lleisiau, hyrwyddo cynhwysiad a sbarduno gwelliannau mewn addysg, cydraddoldeb, tlodi ac iechyd meddwl. Mae'r dull integredig hwn yn dangos effeithiolrwydd dull gweithredu lle mae cyfatebiaeth rhwng ymrwymiadau strategol a'r materion sydd bwysicaf i blant a phobl ifanc, gan sicrhau bod canlyniadau systemig ac unigol yn cael eu gwireddu a'u cynnal.

O dan yr ymrwymiad i fod Yma i Bob Plentyn, mae gwaith y Comisiynydd yn dangos sut mae partneriaethau strategol, tystiolaeth gadarn a chyfranogiad ieuenctid gweithredol, yn cyfuno i sicrhau effaith systemig ac unigol. Amlygwyd materion allweddol trwy gydweithrediad cryfach ar draws y sector, tra bod gwelliannau i systemau mewnol ac ymgysylltu a dargedwyd wedi sicrhau bod lleisiau plant yn ganolog i waith cynyddu ymwybyddiaeth a gwneud penderfyniadau.

Yn ei rôl Arwr Hawliau, mae'r Comisiynydd yn dangos sut mae gwaith ymgysylltu parhaus, hyfforddiant a chanllawiau yn gallu troi polisi yn ymarfer a meithrin canlyniadau unigol a systemig. Cefnogir ysgolion, awdurdodau lleol a byrddau iechyd i wreiddio dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau, sy'n dechrau egino mewn ymarfer, tra bod fframweithiau megis Y Ffordd Gywir yn cryfhau gwasanaethau cyhoeddus er mwyn cynnal newid hirdymor. Gyda'i gilydd, mae'r ymdrechion hyn yn dangos bod arfogi plant â gwybodaeth am eu hawliau a galluogi sefydliadau i'w cynnal yn cynnig sylfaen gydnerth ar gyfer llesiant plant a gwireddu hawliau plant ar draws Cymru.

O ran Goleuo'r Gwir, mae gwaith y Comisiynydd yn dangos pŵer gwrando ar leisiau plant, eu hamlygu a gweithredu arnynt er mwyn sbarduno effaith systemig ac unigol. Drwy waith cynyddu ymwybyddiaeth seiliedig ar dystiolaeth, ymgysylltu â chyrff cyhoeddus, estyn allan i'r cyfryngau a chymryd rhan mewn mentrau megis Ymchwiliad Covid-19, Dim Drws Anghywir, a Deddf ADY, mae CPC wedi dylanwadu ar ganllawiau statudol, wedi gwella gwasanaethau a chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd. Mae'r ymdrechion hyn yn egluro'r cysylltiad rhwng profiad bywyd, dylanwad polisi a chanlyniadau ystyrlon ar draws Cymru.

Yn rôl yr Heriwr, mae'r Comisiynydd yn dangos effaith allweddol dal systemau i gyfri a galw am ddiwygiadau ystyrlon. Drwy waith cynyddu ymwybyddiaeth parhaus ar faterion megis teithio gan ddysgwyr a diwygiadau gofal, i ddiogelwch ar-lein, tai a gweithredu ynghylch newid hinsawdd, mae CPC wedi dylanwadu ar bolisi, canllawiau statudol a chyflwyno gwasanaethau. Mae'r ymyriadau hyn yn cryfhau'r ecosystem gyffredinol, yn rhoi sylw i rwystrau strwythurol ac yn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu gwireddu mewn parthau niferus. Mae'r gwaith o herio arferion gwael a dadlau o blaid diwygiadau yn cryfhau effeithiolrwydd systemig, gan sicrhau bod hawliau, llesiant a chyfleoedd plant yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi yn yr hirdymor.

Drwy integreiddio tystiolaeth o arolwg Gobeithion i Gymru yn yr adroddiad hwn, gwelir bod lleisiau plant a phobl ifanc yn parhau i lywio blaenoriaethau'r Comisiynydd. Mae'r canfyddiadau'n ategu bod cynnydd sylweddol wedi'i gyflawni o ran gwreiddio hawliau ac amlygu lleisiau plant, ond mae angen rhoi sylw i'r anghydraddoldeb yn y lleisiau sy'n cael eu clywed a rhoi lle blaenllaw iddo yn holl waith CPC, yn enwedig yn achos plant o deuluoedd incwm isel, plant anabl a phlant â nodweddion gwarchodedig. Wrth gamu ymlaen, dylai'r Comisiynydd ganolbwyntio ar gau'r bylchau cyfranogiad a mynediad y soniodd plant a phobl ifanc o deuluoedd incwm is, plant anabl a phlant â nodweddion gwarchodedig amdanynt trwy dargedu ymgysylltiad mewn cymunedau difreintiedig a sicrhau bod diwygiadau cenedlaethol, megis y Strategaeth Tlodi Plant, cyflwyno ADY, ac addysg ynghylch yr hinsawdd yn cael eu cyflwyno'n deg. Bydd rôl y Comisiynydd yn parhau i herio Cymru i fesur cynnydd yn ôl cydraddoldeb profiadau, a hynny drwy barhau i wrando ar blant, i amlygu eu lleisiau, ac i weithio gyda phartneriaid i drosi tystiolaeth yn gamau gweithredu.

Er bod swyddfa'r Comisiynydd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran casglu tystiolaeth a'i defnyddio i lywio gwaith polisi a chynyddu ymwybyddiaeth, mae'r system fewnol bresennol yn dal i fod yn dameidiog, gyda data wedi'i wasgaru ar draws nifer o ffynonellau. Mae'r diffyg integreiddio hwn yn cyfyngu'r gallu i adnabod patrymau a manteisio i'r eithaf ar gipolygon plant a phobl ifanc ar draws timau a meysydd thematig. Byddai sefydlu dull gweithredu canolog, mwy cydlynus o ymdrin â thystiolaeth ac ystorfa hawdd ei llwybro ar gyfer data mewnol yn cryfhau gallu'r swyddfa i fonitro canlyniadau ac effaith, ac yn hyrwyddo dull mwy strategol o wneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn sicrhau bod cipolygon pob plentyn a pherson ifanc yn cyfrannu at welliannau systemig a chanlyniadau gweladwy.

Ar ben hynny, byddai modd ymgysylltu mwy â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a gallai cynlluniau sydd eisoes yn bodoli elwa o gymhwyso egwyddorion cydraddoldeb a chynhwysiad mewn dull mwy cyson. Mae amrywiadau yn narpariaeth leol gwasanaethau allweddol, megis cymorth iechyd meddwl, cludiant i'r ysgol a darpariaeth ADY, yn dal i greu annhegwch ac mae diffyg system fonitro gynhwysfawr yn gwneud olrhain effaith rhai argymhellion yn anodd. Bydd cryfhau'r sylfaen dystiolaeth a'r mecanweithiau atebolrwydd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gwaith y Comisiynydd i gynyddu ymwybyddiaeth yn dal i fod yn ymatebol, yn gynhwysol ac yn gallu cynhyrchu canlyniadau hirdymor ystyrlon i holl blant Cymru.

Ar hyd y cyfnod strategol diwethaf, mae swyddfa'r Comisiynydd wedi cymryd camau breision i hyrwyddo llesiant a hawliau plant ar draws Cymru. Drwy waith cynyddu ymwybyddiaeth strategol, ymgysylltu cadarn â phlant a phobl ifanc a chydweithio'n agos â gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaid yn y sector, mae CPC wedi cryfhau systemau, amlygu lleisiau plant, a chyflawni gwelliannau gweladwy mewn polisi, ymarfer a phrofiadau pob dydd. Mae'r swyddfa mewn sefyllfa dda i adeiladu ar y cyflawniadau hyn a pharhau i sbarduno newid systemig, er mwyn sicrhau bod pob plentyn, beth bynnag eu cefndir neu eu hamgylchiadau, yn elwa ar amddiffyniadau cryfach, cyfleoedd cyfartal a chyfranogiad ystyrlon yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

**www.comisiynyddplant.cymru**

**T: 01792 765600**

**E: post@complantcymru.org.uk**

**Facebook: @childcomwales**

**Llinell gymorth cyngor rhadffôn: 0808 801 1000**


Comisiynydd Plant Cymru
Tŷ Llewellyn
Parc Busnes Glan Yr Harbwr
Heol Yr Harbwr
Port Talbot, SA13 1SB

**post@complantcymru.org.uk**
**01792 765600**


Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales